

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/141991/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Callander, David and Thomas, Rebecca 2021. Amser yn Armes Prydein Vawr. *Studia Celtica* 55 (1) , pp. 1-28. 10.16922/SC.55.1

Publishers page: <https://doi.org/10.16922/SC.55.1>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



# Amser yn *Armes Prydein Vawr*

DAVID CALLANDER a REBECCA THOMAS

*Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor*

## *Crynodeb*

Mae'r erthygl hon yn ymdrin â'r gerdd gynnar Gymraeg *Armes Prydein Vawr*. Edrychir ar sut y mae'n symud yn gelfydd rhwng gwahanol gyfnodau amser er mwyn cryfhau nifer o'i phrif ergydion. Telir sylw i gysyllteiriau ac arddodiaid amser a'r defnydd o ferfau sy'n rhoi gwybodaeth am amser. Trafodir a oes cyswllt rhwng adrannau penodol o'r gerdd a chyfnodau arbennig o amser gan dynnu sylw at arwyddocâd y gwahaniaethau yn y ffordd y rhennir y gerdd yn y llawysgrif ac mewn golygiadau modern. Dadleuir bod modd herio rhai o'r diwygiadau a wnaethpwyd i'r testun yn y golygiadau safonol, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar amser, a bod y symud a chymysgu mynych rhwng cyfnodau amser yn y gerdd yn fwriadol ac yn effeithiol.

*Armes Prydein Vawr*, heb amheuaeth, yw un o'r cerddi Cymraeg pwysicaf i'r hanesydd. Nid oes yr un gerdd arall sydd wedi goroesi mewn llawysgrifau diweddarach yn rhoi cymaint o dystiolaeth dros ei dyddio i'r Oesoedd Canol cynnar, ac i'r ddegfed ganrif yn benodol.<sup>1</sup> Mae hyn yn gynyddol bwysig yn wyneb y tuedd diweddar i ddyddio rhai darnau o Hengerdd yn llawer diweddarach nag y gwnaethpwyd yn y gorffennol.<sup>2</sup> Oherwydd anawsterau ffurf ac iaith y gerdd, mae llawer o waith hanesyddol wedi pwyso'n drwm ar gyfieithiadau ysgolheigaidd, ac yn enwedig ar gyfieithiad Rachel

---

<sup>1</sup> Ceir yr unig gopi annibynnol o *Armes Prydein Vawr* yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Peniarth 2 (Llyfr Taliesin), 13–18, a ddyddir i hanner cyntaf y 14g. Ar y llawysgrif, gw. Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 25 (1987–8), 357–86. Am drosolwg o'r dadleuon hanesyddol ynghylch dyddio'r gerdd, gw. T. M. Charles-Edwards, *Wales and the Britons 350–1064* (Oxford: OUP, 2012), 520–1. Cynigir ei dyddio i'r 11g. gan Colmán Etchingham, 'North Wales, Ireland and the Isles: The Insular Viking Zone', *Peritia*, 15 (2001), 146–86 (184–5), ond nid yw ei ddadl, a seilir yn bennaf ar gyfeiriad amwys yn ll. 10, yn argyhoeddiadol. Hoffem ddiolch i'r Prif Olygydd a'r darlennydd dienw am sylwadau tra gwerthfawr ar ddrafft o'r erthygl hon. Ni sy'n gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau a erys.

<sup>2</sup> Gw., e.e., Graham Isaac, 'Gweith Gwen Ystrat and the Northern Heroic Age of the Sixth Century', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 36 (Winter 1998), 61–70; Marged Haycock (gol.), *Legendary Poems from the Book of Taliesin* (Aberystwyth: CMCS Publications, 2007); Oliver J. Padel, 'Aneirin and Taliesin: Sceptical Speculations', yn Alex Woolf (gol.), *Beyond the Gododdin: Dark Age Scotland in Medieval Wales* (St Andrews: The Committee for Dark Age Studies, University of St Andrews, 2013), 111–52.

Bromwich a gyhoeddwyd gyda'i fersiwn Saesneg o olygiad Ifor Williams.<sup>3</sup> Erystal yw'r cyfieithiad, mae perygl fod gormod o bwyslais wedi ei roi arno, gan nad yw'n cynnig ond un dehongliad o ddeunydd tra amwys. Seiliodd Bromwich ei chyfieithiad ar destun wedi ei ddiwygio, ac mae rhai o'r diwygiadau hynny'n ddadleuol, gan gynnwys rhai sy'n berthnasol i rôl amser yn y gerdd. Mae angen rhagor o astudiaethau manwl o'r testun, ac nid astudiaethau hanesyddol yn unig, i herio'r deongliadau a'r diwygiadau traddodiadol a chynnig damcaniaethau newydd.

Bwriad yr erthygl hon, felly, yw cynnig gwybodaeth newydd am y gerdd drwy edrych yn benodol ar rôl amser ynddi. Diffinnir ystyr gyffredinol *amser* gan *Geiriadur Prifysgol Cymru* fel '[c]yfnod parhaol amhenodol o fodolaeth, parhad a nodweddir gan symudiad o gyflwr terfynedig yn y gorffennol, drwy'r presennol, i gyflwr potensial yn y dyfodol'.<sup>4</sup> Nodweddir ein hamgyffred o amser gan y symud hwn o'r gorffennol i'r dyfodol trwy'r presennol, ond mae'r sefyllfa mewn proffwydoliaethau canoloesol fel arfer ychydig yn fwy cymhleth. Mae nifer o agweddau ar amgyffred amser yn yr Oesoedd Canol sy'n llai cyfarwydd i ni heddiw. Credid bod gan amser y byd hwn derfyn pendant, er i ysgolheigion anghytuno'n fawr ynghylch pryd fyddai'r diwedd, ac a oedd modd gwybod.<sup>5</sup> Gwelir, felly, fod Dydd y Farn yn berthnasol iawn i *Armes Prydein*, gan ei bod yn darogan y bydd y Cymry'n rheoli Prydain hyd y dydd hwnnw (llau 164, 192).<sup>6</sup> Mae'r ffaith fod *Armes Prydein* yn dilyn *Armes Dydd Brawd* ('Proffwydoliaeth Ynghylch Dydd y Farn') yn y llawysgrif yn arwyddocaol, gan gysylltu buddugoliaeth y cyfiawn â buddugoliaeth ddaearol y Cymry. Roedd gwrthgyferbyniad rhwng y byd meidrol, a ddaw i ben, a'r tragwyddoldeb dwyfol. Yn hytrach na bod yn gaeth i gyfnod penodol o amser fel yr ydym ni, mae Duw yn bresennol ym mhob amser yr un pryd. Mae presenoldeb cyson Duw yn allweddol i lawer o destunau a gynhyrchwyd yn yr Oesoedd Canol, yn enwedig y rhai a gysylltir â'r litwrgi.<sup>7</sup> Daw hyn yn gynyddol amlwg hefyd tua diwedd *Armes Prydein*, lle canolbwyntir ar y Duw digyfnewid na fydd byth yn ildio, gan ddefnyddio tragwyddoldeb Duw i roi neges ac esiampl derfynol i'r Cymry.<sup>8</sup>

---

<sup>3</sup> *ArmP<sup>2</sup>*; a cheir golygiad a chyfieithiad gwerthfawr gan Graham Isaac hefyd yn *ArmPF*.

<sup>4</sup> *GPC* d.g. *amser* 1a.

<sup>5</sup> Ar ganfyddiadau o amser yn yr Oesoedd Canol, gw. Gerhard Jaritz a Gerson Moreno-Riano (goln), *Time and Eternity: The Medieval Discourse* (Turnhout: Brepols, 2003); Chris Humphrey a W. M. Ormrod (goln), *Time in the Medieval World* (York: York Medieval Press, 2001).

<sup>6</sup> Gw. ymhellach isod t. 0000.

<sup>7</sup> Cymh. David Callander, *Dissonant Neighbours: Narrative Progress in Early Welsh and English Poetry* (Cardiff: UWP, 2019), 134–5.

<sup>8</sup> Gw. isod t. 0000.

Mae'r ymdriniaeth ag amser yn *Armes Prydein Vawr* ychydig yn wahanol i'r hyn a geir yng ngherddi proffwydol eraill Llyfr Taliesin, lle mae'r bardd fel arfer yn darogan digwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd.<sup>9</sup> Felly, yn y gerdd *Yn wir dymbi Romani kar*, proffwydir brwydr Winwaed, a ymladdwyd rhwng Mersia a Northumbria yn 655.<sup>10</sup> Ni phroffwydir digwyddiadau penodol o'r gorffennol yn *Armes Prydein Vawr*: canolbwyntir, yn hytrach, ar ddarogan alltudio'r Saeson o Brydain. Cyfeirir at rai digwyddiadau o'r gorffennol, megis Hengist a Horsa yn cipio Thanet, ond mae'r rhain wedi eu gosod yn y gorffennol o bersbectif y bardd a'i gynulleidfa. Er hynny, nid oes ffiniau pendant rhwng digwyddiadau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn y gerdd. Yn hytrach, mae'r bardd yn llithro rhwng amrywiol gyfnodau, gyda nifer o linellau yn amwys o ran y cyfnod y perthynant iddo.

Mewn rhai achosion, diwygiwyd berfau er mwyn adlewyrchu'n well ddisgwyliadau'r golygydd am rôl amser yn y gerdd. Felly, er i Ifor Williams nodi bod *dygoganner* (ll. 13, *pell dygoganner amser dybydyn*) yn ffurf amhersonol bresennol ddibynnol 'a ddefnyddir yn aml mewn ystyr dyfodol', dadleua Rachel Bromwich fod y cyd-destun yn gofyn am ferf orffennol, ac felly fe'i diwygia yn *dygogannerhet*, y ffurf amhersonol amherffaith ddibynnol.<sup>11</sup> Yn yr un modd, diwygia Ifor Williams *dygorfu* (llau 125 a 127) yn *dygorfi* neu *dygoryw* gan 'n[a]d yw'r amser gorffennol yn taro'n addas mewn darogan'.<sup>12</sup> Dyma ddatganiad arwyddocaol, o ystyried pa mor bwysig yw'r gorffennol i *Armes Prydein*, ac yn wir i nifer o gerddi proffwydol eraill. Mae'r fath newidiadau golygyddol, sy'n cael effaith ar ystyr ac amwysedd llinellau, weithiau'n cael eu cynnwys mewn ymdriniaethau eraill heb dynnu sylw atynt. Drwy edrych yn ofalus ar amser yn y gerdd, gobeithir y bydd modd penderfynu a yw'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol ai peidio.

---

<sup>9</sup> Marged Haycock (gol.), *Prophecies from the Book of Taliesin* (Aberystwyth: CMCS Publications, 2013), 13.

<sup>10</sup> *Yn wir dymbi Romani kar*, ll. 43, gw. Haycock, *Prophecies*, 156 a 168–9 n. 43.

<sup>11</sup> *ArmP* 15 n. 13; *ArmP*<sup>2</sup> 23 n. 13; ni ddiwygir yn *ArmPF* 170. Noder bod *dygoganner* yn odli'n fewnol ag *amser* fel y saif yma, ac y byddai diwygio > *dygogannerhet* yn cael gwared ar hyn.

<sup>12</sup> *ArmP* 50 n. 125, lle awgryma Ifor Williams fod yr ysgrifydd wedi drysu rhwng y minimau os *digorui* oedd y darlleniad gwreiddiol. Mae J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd: GPC, 1931–63), d.g. *dyoruot*, yn dehongli *dygorfu* yma fel enghraifft ddilys o ffurf 3 un. grff. y ferf honno. Noda Graham Isaac, *ArmPF* 176 n. 29, fod dehongliad Ifor Williams yn bosibl, 'but the immediate scribe had no difficulty identifying and accurately copying other future forms in the poem, so I choose instead to interpret the *lectiones difficiliores* with the preterite as actually transmitted'. Cymh. *ArmP* nodiadau ar lau. 28 (cymh. *ArmPF* 171 n. 3), 53 a 62 a nodiadau *ArmP*<sup>2</sup> ar l. 25.

Drwy roi sylw manwl i batrymau iaith, ceisir deall yn well sut y mae'r bardd yn symud rhwng gwahanol gyfnodau amser yn *Armes Prydein*. Dechreuir ar y lefel fanylaf posibl, gan ystyried pa eirynnau amser (*temporal markers*) a ffurfiau berfol a ddefnyddir, a sut y maent yn effeithio ar leoliad llinellau mewn amser. Cyflwynir testun anodedig o'r gerdd yn Atodiad 1, a rhestr o bob berf yn ôl person, amser a modd yn Atodiad 2.

## *Geiriau ac ymadroddion amser*

### *Cysyllteiriau ac arddodiaid*

Gwneir defnydd pwrpasol o nifer sylweddol o arddodiaid, cysyllteiriau a berfau yn *Armes Prydein*, sy'n cynnig un ffordd o roi gwybodaeth am bryd y mae rhywbeth yn digwydd. Yn agos at y dechrau, cawn eirynnau amser sy'n pontio'r ymladd a'r sefyllfa ogoneddus wedi'r fuddugoliaeth. Yn llinellau 4–12, defnyddir yr arddodiad *gwedy* ddwywaith a'r cysylltair *pan* unwaith. Symuda'r ddwy enghraifft o *gwedy* o gyfnod yr ymladd i'r gorfoledd sy'n dilyn: *A gŵedy dyhed anhed ym pop mehyn* ('ac wedi rhyfel, preswyllo ym mhob man', ll. 4); *gŵnahaŵnt goruoled gŵedy gŵehyn* ('byddant yn gwneud gorfoledd wedi'r dinistrio', ll. 8). Yna, yn llinell 12, gweithreda *pan* mewn ffordd debyg. Ceir un enghraifft ar ddeg o *pan* fel cysylltair amser yn *Armes Prydein* ac mae'n gysylltair tra phwysig yn y gerdd. Er y disgwylid iddo bwysleisio cydamseroldeb, yn aml gall gynnig symudiad, er enghraifft, 'pan fydd rhywbeth wedi digwydd, dyma rywbeth arall fydd yn digwydd neu dyma fydd y sefyllfa'. Gwelwn enghraifft o hyn yn llinell 12: *Atporyon uyd Brython pan dyorfyn* ('bydd y Brythoniaid yn ?adnewyddedig pan enilliant'), sydd eto'n pwysleisio'r sefyllfa wedi'r fuddugoliaeth. Ceir yr un patrwm yn llinellau 95–8: *yg gorffen pop agreith anreith degyn* ('yn niwedd pob her, anrheithio cadarn', ll. 95); *gŵyn eu byt 6y gymry pan adrodynt. / ryngŵaraŵt y trindaŵt or trallaŵt gynt* ('gwyn eu byd y Cymry pan fyddant yn adrodd, "Mae'r Drindod wedi ein gwaredu o'r helynt gynt"', llau 97–8). Felly defnyddir geirynnau amser ar ddechrau'r gerdd (a hefyd yn llau 95–8) i wahaniaethu'n glir rhwng sefyllfa'r ymladd a'r sefyllfa wedi'r ymladd, sy'n dangos bod y rhyfel yn werth ei ymladd, ac felly y dylai'r Cymry godi yn erbyn y Saeson.

Wedyn, yn llinellau 31–42, ceir rhagor o bwyslais ar gysylltu gorffennol y Saeson â'r presennol a'r dyfodol. Cyfeirir yn ôl at ddigwyddiadau mwyaf cywilyddus y gorffennol:

**pan** prynasant danet trŵy fflet called  
gan hors a hegys oed yng eu ryssed  
eu kynnyd bu y ŵrthym yn anuonhed.

Pan brynasant Thanet trwy dwyll ystryw  
gan Horsa a Hengist, cyfyng oedd eu rhwysg;  
bu eu cynnydd yn anfonheddig [ac] ar ein traul;

Er bod hyn yn ymddangos yn gyfeiriad at y gorffennol, gyda'r cysylltair *pan* yn ein symud yn ôl i gyfnod yr *aduentus Saxonum*, mae ei berthnasedd i'r presennol yn hollbwysig. Mae *eu kynnyd bu y ōrthym* yn cyd-doddi Cymry'r gorffennol a Chymry'r presennol<sup>13</sup> a symuda *gŵedy* (ll. 34) o ddigwyddiadau'r gorffennol i ddigwyddiadau'r presennol (*gŵedy rin dilen*, hynny yw, ar ôl lladdedigaeth boneddigion y Cymry gan y Saeson, *keith y mynuer* 'taegion sydd â'r goron'). Wedyn, yn llinellau 40–42, gan ddechrau eto gyda *pan*, cymysgir y gorffennol, y presennol a'r dyfodol:

<b>Pan</b> uyd kechmyn danet an teyrned.	Pan fydd cachwyr Thanet yn frenhinoedd arnom
Gŵrthottit trindaŵt dyrnaŵt a bŵyller.	boed i'r Drindod wrthod ergyd a fwriader
y dilein gŵlat Vrython a Saesson yn anhed.	i ddifa gwlad y Brythoniaid a Saeson yn preswyllo. (llau 40–2)

Mae *kechmyn danet* yn disgrifio'r Saeson mewn ffordd sy'n eu clymu wrth y gorffennol pell, pan brynasant Thanet gan Wrtheyrn.<sup>14</sup> Ond symuda'r llinellau dilynol i ddymuniad ar gyfer y dyfodol, sef i'r Drindod ymwrthod â chynllun y Saeson i ddifa gwlad y Brythoniaid a'i chyfanheddu. Yn yr un modd yn llinellau 63 a 84, defnyddir yr arddodiad *yn* gydag enw i bwysleisio yr ad-delir drwgweithred y Saeson yn y dyfodol: *meiryon yg werth eu geu yn eu creinhyn* ('bydd stiwardiaid yn ymdrybaeddu yn eu ... fel ad-daliad am eu twyll', ll. 63); *Yg gorffen eu tretheu agheu a Gdant* ('yn niwedd eu trethi, adwaenant angau', ll. 84).

Pwysleisir cyfnod yr ymladd gan eiryynnau amser yn llinellau 108–22, gan gynnwys *rac* (*rac ruthyr ketwyr* 'rhag rhuthr y rhyfelwyr', ll. 119) a *kyn* (*kyn gŵascar lluyd* 'cyn i'r lluoedd wasgaru', ll. 120). Erys *pan* yn bwysig: *pan dyffo iwys y vn gŵssyl* ('pan fydd Iwys yn dod i un cyngor', ll. 108); *pan safhwynt galaned ōrth eu hennyd* ('pan fydd cyrff meirw yn sefyll lan ar bwys ei gilydd', ll. 122).<sup>15</sup> Gall *pan* bwysleisio cyfnodau penodol yn y gerdd (fel yn ll. 122; cymh. llau 31, 93, 97, 187). Fel y nodwyd, gall hefyd gynnig rhywfaint o symudiad, megis wrth gyfeirio at y Saeson yn dod ynghyd yn llinell 108 cyn symud ymlaen i'w gobeithion ar gyfer y dyfodol (cymh. llau 12, 132, 141, 143).

<sup>13</sup> Cymh. yr *amser gŵrtheyrn genhyn y sathrant* (ll. 137).

<sup>14</sup> Gw. *Historia Brittonum* §31 (Edmond Faral (gol.), *La Légende Arthurienne: Études et Documents*, 3 cyfrol (Paris: Champion, 1929), III, 23). Mae'n debyg fod y bardd yn gyfarwydd â *Historia Brittonum*: gw. *ArmP* 23–4.

<sup>15</sup> Ailadroddir ll. 122 yn ll. 187.

Tua diwedd y gerdd, defnyddir arddodiaid wrth newid y pwyslais amser i ganolbwyntio ar yr hyn a fydd yn parhau tan ddiwedd y byd.<sup>16</sup> Defnyddir *hyt Graŵt* ('hyd Ddydd y Farn') ddwywaith, yn gyntaf yn llinell 164:

kynan a chatwaladyr kadyr yn lluyd. Cynan a Chadwaladr, mewn lluoedd gwych,  
Etmyccaŵr **hyt Graŵt** ffaŵt ae deubyd. edmygir hyd Ddydd y Farn y llwyddiant a ddaw iddynt. (llau 163–4)

Pwysleisir nad digwyddiad dros dro fydd buddugoliaeth y Cymry. Ceir *hyt vraŵt* yn un o'r disgrifiadau olaf cyn i'r gerdd droi at y dwyfol yn llwyr wrth derfynu:

saesson ōrth agor ar vor peunyd. Saeson wrth angor ar y môr bob dydd,  
kymry gŵneraŵl **hyt vraŵt** goruyd. bydd y Cymry crefyddol (?)<sup>17</sup> yn fuddugoliaethus tan ddydd y Farn. (llau 191–2)

Dangosir fel y bydd y Cymry mewn grym hyd ddiwedd y byd wedi iddynt orchfygu'r Saeson. Felly mae'r canolbwynt amser hwn eto'n ffordd i gymell y Cymry i ymladd yn erbyn y Saeson ac i ennill gwobr barhaol. Yn wir, gwelir bod y rhan fwyaf o'r geirynnau amser yn y gerdd yn cyfrannu at y neges fod angen i'r Cymry godi yn erbyn eu gormeswyr. Dangosant mai'r un Saeson anwaraidd sy'n bod heddiw ag a fu yn y gorffennol a phwysleisir droeon symudiad cronolegol hawdd o gyfnod yr ymladd i'r cyfnod ar ôl hynny a fydd nid yn unig yn ogoneddus ond hefyd yn barhaol.

### *Berfau*

Mae gan ferfau swyddogaeth dra phwysig yn *Armes Prydein* yn ymwneud y gerdd ag amser ac maent yn llawer mwy niferus na'r geirynnau amser a drafodwyd uchod.<sup>18</sup> Mae'r rhan fwyaf o lawer o ferfau *Armes Prydein* yn amwys o ran eu cyfeiriad amser. Fel mewn Cymraeg Diweddar, gall ffurfiau presennol mynegol gyfeirio at y presennol neu'r dyfodol. Defnyddir ffurfiau dibynnol presennol ar gyfer y dyfodol weithiau mewn Cymraeg Canol ac felly nid yw'r rhain yn gwahaniaethu'n glir rhwng disgrifiad o'r dyfodol a dymuniad ar gyfer y dyfodol.<sup>19</sup> Gwelir yn Atodiad 2 duedd trawiadol y gerdd

---

<sup>16</sup> Yn yr un modd, mae *beunyd/peunyd*, a ddefnyddir bedair gwaith yn ail hanner y gerdd (llau 111, 123, 170, 191), yn pwysleisio pa mor gyson y bydd y Cymry yn ymladd ac y bydd y Saeson yn ffoi yn y dyfodol.

<sup>17</sup> Ar ystyr *gŵneraŵl*, gw. *ArmP* 66; Lloyd-Jones, *Geirfa*, d.g. *gwenerawl*.

<sup>18</sup> Nid yw berfenwau ac ymadraddion di-ferf yn ddiwbys chwaith. Gallant fod yn ddiamser ac yn cyfeirio at y dyfodol, y presennol a'r gorffennol heb gyfeirio at yr un ohonynt yn benodol, ond mwy cyffredin yn *Armes Prydein* yw iddynt gael eu cysylltu ag amser a bennir gan ferfau neu eirynnau amser.

<sup>19</sup> *GMW* 113; cymh. John Morris Jones, *A Welsh Grammar: Historic and Comparative* (Oxford: Clarendon, 1913), 324 a 339; *ArmP* 15.

tuag at ferfau trydydd person. Gwneir defnydd helaeth o'r terfyniad trydydd person lluosog *-ynt*, sy'n ffurf hanfodol amwys. Gall fod yn bresennol mynegol neu'n amherffaith (mynegol neu ddibynnol).<sup>20</sup> Felly gellid dehongli *terdyn* (ll. 45) fel 'tarddant / byddant yn tarddu' neu 'byddent yn tarddu'. Mae'n bosibl fod *Armes Prydein*, fel cerdd sy'n cymysgu amseroedd yn fwriadol, yn dewis defnyddio'r terfyniad amwys hwn yn arbennig o helaeth er mwyn hwyluso'r fath gymysgu. Gall *-ynt* uno'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Ni cheir y fath amwysedd ym mhob ffurf, megis yr ychydig ffurfiau gorffennol diamwys.<sup>21</sup> Ceir ffurfiau gorchmynnol hefyd (yn enwedig *poet/boet*), er bod eu rhif yn gymharol isel: ceir y rhan fwyaf ohonynt mewn dau grŵp (llau 41–53, 160–2). Gallant gyfleu dymuniad clir i rywbeth ddigwydd yn y dyfodol, megis alltudiaeth y Saeson:

<b>poet</b> kynt eu reges yn alltued.	boed eu ciliad i alltudiaeth yn gyflymach
no mynet kymry yn diffroed.	na'r Cymry yn mynd heb fro. (llau 43–4)

Cryfheir yr effaith trwy ailadrodd *boet* yn llinellau 159–62, sy'n cyferbynnu cyfoeth y Saeson yn awr a'r dioddefaint sy'n eu haros:

<b>Gŏedy</b> eur ac aryant a chanhŏynynd.	Wedi aur ac arian a (?)
<b>boet</b> perth eu disserth yg werth eu drycffiyd.	boed llwyn yn noddfa iddynt, fel ad-daliad am eu hanonestrwydd;
<b>boet</b> mor <b>boet</b> agor eu kussulwyr	boed môr, boed angor yn gynghorwyr iddynt,
<b>boet</b> creu <b>boet</b> agheu eu kyweithyd.	boed gwaed, boed angau yn gwmni iddynt. (llau 159–62)

Yn yr un modd, ceir clwstwr o enghreifftiau o'r ffurf ddyfodol *atvi* yn llinellau 115–19, sy'n pwysleisio'r digwyddiadau a ddisgrifir a'r sicrwydd y byddant yn digwydd.<sup>22</sup> Yn yr achos hwn, felly, dangosir y bydd y Cymry yn sicr o gael buddugoliaeth dros y Saeson ac yn eu lladd:

<b>Atvi</b> peleiral dyfal dillyd.	Bydd llif di-baid trywanu â gwaywffyn
nyt arbettŏy car corff ygilyd.	ni fydd perthynas yn arbed corff ei gilydd,
<b>Atui</b> pen gaflaŏ heb emennyd.	bydd pen wedi ei holli heb ymennydd
<b>Atui</b> gŏraged gŏedŏ a meirch gŏeilyd.	bydd gwagedd gweddw a cheffylau heb farchog
<b>Atui</b> obein vthyr rac ruthyr ketwyr.	bydd ochneidio arswydus rhag rhuthr y rhyfelwyr

<sup>20</sup> Gw. *GMW* 120.

<sup>21</sup> Diddorol yw prinder y ffurfiau gorffennol yn y gerdd, er gwaethaf yr odl *-ant* mewn rhannau ohoni.

<sup>22</sup> Cymh. Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd: GPC, 1976), 67.



Mewn cerdd mor amwys ei hamser, gall defnyddio clystyrau o ffurfiau llai amwys gryfhau dymuniad ymddangosol y bardd neu ei sicrwydd am rywbeth yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y gerdd, pentyrrir berfau a all gyfeirio at y presennol neu'r dyfodol yn ffurfiol, ond sydd o'u cyd-destun yn amlwg yn cyfeirio at y presennol dwyfol:

ny **threinc** ny **dieinc** nyt **ardispyd**.

ni threnga, ni ddiainc, ni ddiffygia,

ny **6y6** ny **welyc** ny **phlyc** ny **chryd**.

ni wywa, ni chyll werth, ni phlyg, ni chrebycha. (llau 198–9)

Mae'r gyfres o ferfau yma'n cyfleu'r Duw (a/neu Ddewi) di-lwfr, tragwyddol a heb wendid. Ceir tair ffurf bresennol fynegol yn y llinell gyntaf a phedair yn yr ail, lle mae'r geiriau'n fyrrach a lle cynyddir y pwyslais drwy ailadrodd y geiryn negyddol *ny(t)*. Amlygir y geiriau *threinc*, *dieinc*, ac *ardispyd* gan y gynghanedd sain a *welyc* a *phlyc* gan yr odl fewnol. O ran yr olaf o'r rhain, meddai Ifor Williams: 'Ny **phlyc**, deil yr un fath, heb 6yro'r naill ffordd na'r llall, heb ysigo'.<sup>23</sup> Mae gwerth i'r dehongliad hwn, ond nid hwyrach fod yr ystyr gysylltiedig amgen o 'ymostwng' neu 'ildio' yn haeddu ystyriaeth hefyd.<sup>24</sup> Nid yw Duw'n plygu mewn ofn. Dyma obaith a chysur ac esiampl sy'n ffurfio diwedd glo tra effeithiol i'r gerdd.

Ffurf ferfol a haedda sylw arbennig yw *oed* ('oedd'). Mae hon yn ffurf gyfarwydd i ni fel ffurf amherffaith yn cyfeirio at y gorffennol.<sup>25</sup> Fodd bynnag, mewn Hen Gymraeg a Chymraeg Canol, gall fod yn ffurf amodol (*conditional*), yn cyfateb i 'byddai' ac yn cyfeirio at yr hyn sydd heb ddigwydd eto o bersbectif y siaradwr.<sup>26</sup> Cawn enghraifft o'r *oedd* amodol yn 'Oianau Myrddin' o Lyfr Du Caerfyrddin. Dyma gyfres o benillion lle cyfunir cyfarchion Myrddin i fochyn bach â disgrifiadau proffwydol. Er bod rhannau o'r 'Oianau' yn amlwg yn ddiweddarach nag *Armes Prydein* gellir eu gweld yn rhan o'r un traddodiad proffwydol, gan iddynt gynnwys nifer o gyfeiriadau tebyg at ymladd

<sup>23</sup> *ArmP* 68.

<sup>24</sup> *GPC* d.g. *plygaf*.

<sup>25</sup> Am drafodaeth ar swyddogaeth ffurfiau amherffaith yn yr Hengerdd yn fwy cyffredinol, gw. R. L. Thomson, 'Amser ac Agwedd yn y Cynfeirdd', yn Rachel Bromwich ac R. Brinley Jones (goln), *Astudiaethau ar yr Hengerdd: Studies in Old Welsh Poetry* (Caerdydd: GPC, 1978), 179–207.

<sup>26</sup> Graham Isaac, *The Verb in the Book of Aneirin* (Tübingen: Max Niemeyer, 1996), 374–5. Cymh. *GMW* 110–11; Peter Schrijver, 'Old British', yn Elmar Ternes (gol.), *Brythonic Celtic: From Medieval British to Modern Breton = Brittanisches Keltisch* (Bremen: Hempen, 2011), 1–84 (70).

yn y dyfodol ac at Gynan a Chadwaladr, ac felly maent yn werth eu cymharu.<sup>27</sup> Dyma'r enghraifft arwyddocaol o *oet* ('oedd'):

Ojan a pharchellan. <b>oet</b> reid myned	O fochyn bach, byddai'n rhaid mynd
rac. kinytion mordei <b>bei llafassed</b> .	rhag helwyr llysoedd, pe mentrid,
Rac diuod erlid arnam ne ac in gueled.	rhag i erlid ddod arnom ni ac inni gael ein gweld
Ac or diaghune. ny chuinune in lluted.	ac os dihangwn ni, ni chwynwn ni am ein lludded. <sup>28</sup>

Mae cyfuno *oet* â *bei llafassed* yn dangos yn glir fod *oet* yma'n cyfeirio at rywbeth a allai ddigwydd yn y dyfodol, yn hytrach nag at rywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol. Cadarnheir hyn gan bedwaredd linell y pennill: 'ac os dihangwn ni, ni fyddwn yn cwyno am ein lludded', sy'n amlwg yn cyfeirio at y dyfodol.

Digwydd *oed* bedair gwaith yn *Armes Prydein* (llau 22, 32, 49, 62 (*oedyn*)). Amwys yw'r enghreifftiau yn llinellau 49 a 22. Yn yr adran y ceir llinell 49 ynddi, cyfeirir at y Cymry ac arweinwyr Seisnig (?), gan ddefnyddio berfau *-ynt* a all fod yn bresennol (yn cyfeirio at y presennol neu'r dyfodol) neu'n amherffaith, cyn y defnydd o *oed*:

<b>nyt oed</b> yr ma6red nas lleferynt.	Ni fyddai oherwydd balchder na ddywedant/ddywedent hynny
namyn yr hebcor goeir nas kymodynt.	ond er mwyn hepgor gogan na fyddant/fyddent yn cymodi. (llau 49–50)

Nid yw'n glir ai at y gorffennol, y presennol neu'r dyfodol, ai at gymysgedd ohonynt oll y cyfeirir yma, ac adlewyrchir hyn yng nghyfieithiadau Bromwich ac Isaac, sy'n defnyddio'r ymadrodd amseryddol amwys 'it would not be'.<sup>29</sup>

Canolbwyntia'r adran o gwmpas llinell 22 ar gasglu trethi:

meiryon eu tretheu dychynnullyn.	Bydd stiwardiaid yn casglu eu trethi!
yg ketoed Kymry <b>nat oed</b> a telhyn.	Yn nhrysorfeydd y Cymry ni fyddai dim a dalant.
yssyd 6r dilyeda6c a lefeir hyn.	Mae gŵr anrhydeddus sy'n dweud hyn:
ny dyffei a talei yg keithiwet.	'Ni fyddai'r neb yn dod a dalai mewn caethiwed.'
Mab Meir ma6r a eir pryt na thardet.	Mab Mair, gair mawr, pam na fu torri allan

<sup>27</sup> Ar y dyddiad, gw. A. O. H. Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd: GPC, 1982), xxix–xxxiii.

<sup>28</sup> Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin*, 29 (17.10–13).

<sup>29</sup> *ArmP*<sup>2</sup> 5; *ArmPF* 173.

Ymddengys fod llinellau 17–20 yn cyfeirio at ymladd yn y dyfodol yn erbyn stiwardiaid brenin y Saeson yn Aber Peryddon. Os yw'r adran hon yn cyfeirio at y dyfodol yn bennaf, efallai fod llinell 21 yn eironig: 'Bydd stiwardiaid yn casglu eu trethi!', hynny yw, byddant yn cael ad-daliad (cymh. *anaeleu tretheu dychynullant*, ll. 72). Byddai llinell 22, felly, yn awgrymu na fyddai dim yn cael ei dalu o drysorfeydd y Cymry yn y dyfodol.<sup>30</sup> Felly gall *oed* fod â swyddogaeth amodol ac yn cyfeirio at y dyfodol yma.

Ond nid yw hyn yn ddiamwys. Symuda llinell 23 i'r presennol, o bosibl yn cyfeirio at y bardd ei hun neu'n nodi mai bonheddwr sy'n llefaru *hyn*, boed hynny'n cyfeirio at y gerdd gyfan neu adran ohoni neu uned lai, megis y llinell ganlynol, *ny dyffei a talei yg keithiwet* (ll. 24). Dyma'r llinell fwyaf problemataidd. Mae'r patrwm odli'n anarferol, gan nad yw *keithiwet* ond yn odli â *na thardet* yn y llinell ddilynol fel y saif, er y disgwylid i odl barhau am uned fwy na chwpled mewn awdl gynnar. Ymddengys fod y llinell ganlynol yn symud ymlaen i adran newydd o'r gerdd: *Mab Meir ma6r a eir pryt na thardet / rac pennaeth Saesson ac eu hoffed*. Ceir '-edd' neu '-er' yn safle'r brifodl yn yr adran nesaf (a'r ddwy brifodl hynny'n ffurfio odl enerig). Felly awgrymodd Ifor Williams fod *na thardet* yn wall am *na tharder* a'i bod yn bosibl fod yr ysgrifydd wedi cywiro'r odl enerig yn ddiangen.<sup>31</sup> Byddai hynny'n sicr yn newid dealladwy o ystyried amwysedd a chyfnewidioldeb <d> a <t> derfynol yn orgraff Gymraeg yr Oesoedd Canol. Gallai'r ysgrifydd fod wedi meddwl mai diweddu â /d/ yr oedd yr odl, nid â /ð/, gan fod y ddwy lythyren <d> a <t> yn gallu cynrychioli'r ddwy sain mewn Cymraeg Canol, gan ddibynnu ar system orgraff y llawysgrif dan sylw. Barn Williams (a ddilynir gan Isaac) yw bod y llinell *ny dyffei a talei yg keithiwet* wedi dechrau fel glòs ar linell 22, sef y llinell sy'n cynnwys *oed*. Nid yw'r ddadl hon heb ei phroblemau, o ystyried hyd rheolaidd y llinell a'r odl fewnol ynddi: *ny dyffei a talei yg keithiwet*. Ond nid oherwydd ei phrifodl yn unig y saif y llinell hon allan. Mae llinell 24 yn cynnwys yr unig ferfau amherffaith diamwys yn *Armes Prydein* oll, heblaw'r enghreifftiau o *oed*. Cyfeiria gweddill yr adran flaenorol (heblaw ll. 23) at y dyfodol, yn ôl pob tebyg. Ceir cysylltiad thematig clir rhwng y llinell hon a llinell 22 gyda'r ffocws ar drethi. Os dilynwn awgrym Ifor Williams, gallwn weld sut y gall llinell 24 fod wedi datblygu ar sail llinell 22, gyda rhywun yn darllen ac yn addasu'r gerdd gan weld *oed* yn cyfeirio at y gorffennol. Ond gan fod llinell 24 yn rheolaidd o ran ei hyd ac yn cynnwys odl fewnol, mae modd

<sup>30</sup> Cymh. *ArmP*<sup>2</sup> 27.

<sup>31</sup> Gw. isod t. 0000.

cyfiawnhau ei chadw. Gellid ei thrin fel dyfyniad o'r hyn a ddywaid gŵr bonheddig (ll. 23) wrth ddisgrifio adegau eraill pan na thalai'r Cymry drethi. Byddai hyn yn gweithio yn y cyd-destun ac ni fyddai o reidrwydd yn effeithio ar ystyr *oed* (ll. 22); ond erys yr odl derfynol yn broblem. Felly er y gall *oed* fod yn amodol yn llinell 22, mae'r cyd-destun yn rhy amwys i fod yn sicr.

Mae *oedyn* yn llinell 62 yn llawer mwy tebygol o fod yn amodol ac yn cyfeirio at y dyfodol. Daw hyn wedi i'r bardd bwysleisio eto y dylai'r Cymry ddial ar y Saeson a mynegi sicrwydd y bydd hynny'n digwydd:

Kymry a Saesson kyferuodyn.	Bydd/Byddai Cymry a Saeson yn cyfarfod;
y am lan ymtreulaó ac ymóthryn.	ymladd a gwrthdaro ar lan afon.
o diruaóv vydinaóv pan ymprofyn.	Byddant/Byddent yn profi ei gilydd â byddinoedd enfawr,
Ac am allt lafnaóv agaóv agryn.	a llafnau a gweiddi ac ymladd ar fryn,
Ac am góy geir kyfyргеir y am peurllyn.	ac ar lan afon Gwy gwaedd yn ateb gwaedd o gwmpas y gloywddwr,
A lluman adaó a garó discyn.	a gadael baneri, ac ymosod garw,
mal balaon saesson syrthyn.	a bydd/byddai y Saeson yn syrthio fel belaad
kymry kynyrcheit kyfun dullyn.	Bydd/Byddai dilynwyr y Cymry yn ymdrefnu'n gytún
blaen órth von granwynyon kyfyng oedyn.	eu blaenau yn wynebu cefn y rhai gwelw eu gruddiau – byddent mewn cyfyngder mawr
meiryon yg werth eu geu yn eu [...] creinhyn.	bydd/byddai stiwardiaid yn ymdrybaeddu yn eu [...] fel ad-daliad am eu twyll,
Eu bydin ygóaetlin yn eu kylchyn.	eu byddin mewn pyllau gwaed o'u cwmpas. (llau 54–64)

Yng nghyd-destun gweddill y gerdd, ymddengys fod hyn yn ddisgrifiad o'r Cymry a'u cynghreiriaid yn lladd y Saeson yn y dyfodol. Anodd dehongli llinellau 54–60 a 63–7 mewn modd arall ac ymddengys fod llinellau 61–2, sy'n cynnwys *oedyn*, yn cyfeirio at yr un sefyllfa. Awgrym Ifor Williams oedd diwygio *oedyn* yn *uodyn* ('byddant') ond nid yw hynny'n helpu.<sup>32</sup> Mae rhywbeth anarferol (o'n persbectif ni) yn digwydd gyda'r defnydd o *oed* yn *Armes Prydein* ac ni ddylid cuddio hyn. Cyfieitha Isaac *oedyn* fel 'were': 'in close ranks were the pale-cheeks ranged', er iddo gyfieithu gweddill yr adran fel petai'n cael ei osod yn y dyfodol.<sup>33</sup> Mae'r ffaith fod Bromwich yn cyfieithu *oedyn* fel 'will be' yn awgrymu, o bosibl, iddi dderbyn diwygiad Ifor Williams;<sup>34</sup> ond mewn nodyn ychwanegol, mae'n crybwyll y posibilrwydd fod gan *oedyn* swyddogaeth amodol, fel 'would be', a dyma'r dehongliad mwyaf tebygol yma.<sup>35</sup>

<sup>32</sup> *ArmP* 35.

<sup>33</sup> *ArmPF* 173.

<sup>34</sup> *ArmP*<sup>2</sup> 7.

<sup>35</sup> *ArmP*<sup>2</sup> 41.

Felly ceir sawl enghraifft bosibl o *oed* amodol yn *Armes Prydein* ac enghraifft debygol yn llinell 62. Beth yw arwyddocâd defnyddio *oed* yn lle, er enghraifft, *byd*? Fel y terfyniad amwys *-ynt*, mae *oed* o gymorth wrth uno'r dyfodol a'r gorffennol, un o brif amcanion y bardd. Ceir enghraifft o *oed* yn cyfeirio at y gorffennol yn y llinellau canlynol: *Pan prynasant Danet trŷy fflet called / gan Hors a Hegys oed yng eu ryssed* ('Pan prynasant Thanet trwy dwyll ystryw / gan Horsa a Hengist, cyfyng oedd eu rhwysg', llau 31–2). Mae defnyddio *oed* yma yn galluogi'r bardd i ddymchwel y gwahanfur rhwng Saeson y gorffennol a Saeson y presennol a'r dyfodol, yn enwedig pan ystyriwn y cyddestunau tebyg y'i defnyddir ynddynt: Hengist a Horsa *oed yng eu rysedd* ('cyfyng oedd eu rhwysg', ll. 32); wedyn o ran Saeson y dyfodol, *kyfyng oedyn* ('byddent mewn cyfyngder mawr', ll. 62). Mae'r modd yr adleisir *yng* ac *oed* yn y ddwy linell yn arwyddocaol. Dyma ran o gais ehangach y gerdd i glymu'r Saeson wrth y digwyddiadau mwyaf cywilyddus yn eu hanes er mwyn pwysleisio annilysrwydd eu hawl dros Brydain. Hefyd, mae *oed* yn awgrymu posibilrwydd yn fwy na'r datganiad ffeithiol *byd*. Ymddengys fod ystyr amodol *oed* yma yn debyg i 'o dan yr amgylchiadau dyfodol hynny, byddai ...'. Mae hyn o bosibl yn awgrymu na wireddid y darogan ond o dan amgylchiadau penodol. Er i fardd *Armes Prydein* ddatgan ar ddiwedd y gerdd *Arymes yr ynys hon namyn hyn ny byd*, gall y defnydd hwn o *oed* ddangos sylweddoliad y byddai dyfodol amgen yn bosibl pe na chyfodai'r Cymry, mewn modd nid hollol annhebyg i *Wythnos yng Nghymru Fydd*, neu yn hytrach *Wythnos yng Nghymru Fyddai*.<sup>36</sup>

### *Strwythur Cronolegol Armes Prydein Vawr*

O ganlyniad i'r cymysgu bwriadol rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, mae cysylltu rhannau penodol o *Armes Prydein* gyda chyfnodau arbennig yn unig yn gamarweiniol. Symudir yn gyson rhwng cyfnodau amser yn y gerdd, ac yma ceisir nodi a diffinio'r gwahanol gyfnodau y cyfeirir atynt yn y testun ac ystyried eu perthynas â rhannau penodol o'r gerdd, gan gymharu rhaniadau ysgrifydd Llyfr Taliesin â rhai Ifor Williams a Graham Isaac.

---

<sup>36</sup> Yn nofel enwog Islwyn Ffowc Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1957), portreedir dau ddyfodol posibl, un lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a'r llall lle mae wedi marw, a phwysleisir mai ein gweithredoedd ni fydd yn penderfynu pa ddyfodol a wireddir.

Dyma ddehongliad o'r gwahanol gyfnodau wedi ei osod allan gyda chyfeiriadau at bob llinell a osodir (neu y gellir ei osod) yn y cyfnod perthnasol. Mewn nifer o achosion perthyn llinell i fwy nag un cyfnod ac felly ceir croesgyfeiriadau at gyfnodau eraill mewn cromfachau.

#### Cyfnod 1: *Adventus Saxonum*

- 1(a) Saeson yn gadael eu gwlad wreiddiol: 133, 135–6 (hefyd 4a)
- 1(b) stori Hengist a Horsa: 27 (hefyd 5c), 31–3, 34 (hefyd 2b, 3b), 40 (hefyd 3b), 137 (hefyd 2b, 3b), 145–6 (hefyd 4b)

#### Cyfnod 2: Y gorffennol gyda'r Saeson ym Mhrydain

- 2(a) Cymry'n gwrthsefyll y Saeson, yn sefyll yn gadarn: 24?, 125–7, 180
- 2(b) Saeson mewn grym; Cymry ddim yn gwrthsefyll, ac yn dioddef: 21 (hefyd 3b, 4b), 25–6, 34 (hefyd 1b, 3b), 45–6?, 69 (hefyd 3b, 4c), 72 (hefyd 3b, 4c), 83 (hefyd 3b), 85, 98 (hefyd 3b, 4b, 6), 113–14 (hefyd 3b, 5b), 137 (hefyd 1b, 3b), 139–40, 143 (hefyd 3b, 5b), 159 (hefyd 3b)

#### Cyfnod 3: Presennol y gerdd

- 3(a) adeg y darogan ei hun: 1 (hefyd 4a?), 17 (hefyd 4b), 23 (neu 3d), 107 (hefyd 4a), 171 (hefyd 6), 194 (hefyd 5a), 195
- 3(b) cyfnod y gerdd yn fwy cyffredinol: 21 (hefyd 2b a 4b), 34 (hefyd 1b, 2b) 40 (hefyd 1b), 41–2 (hefyd 5b), 45–6? (hefyd 2b?), 48, 69 (hefyd 2b, 4c), 72 (hefyd 2b, 4c), 83 (hefyd 2b), 85 (hefyd 2b), 98 (hefyd 2b, 4b, 6), 103–4 (hefyd 4b, 5b), 113–14 (hefyd 2b, 5b), 137 (hefyd 1b, 2b), 138 (hefyd 4c), 143 (hefyd 2b, 5b), 156 (hefyd 4c), 159 (hefyd 2b)
- 3(c) adeg y darogan ond ar ffurf gofyn/dymuniad: 13(?) (hefyd 4a)
- 3(d) y cyfnod presennol yn fwy cyffredinol (e.e. nodi ffeithiau, presennol duwiol): 23 (neu 3a), 29 (hefyd 5c, 6), 35–7, 39, 197–9

#### Cyfnod 4: Ymladd i waredu'r Cymry rhag y Saeson

(Yn aml, nid oes gwahaniaeth clir rhwng yr israniadau.)

- 4(a) cynghreirio ymysg y Brythoniaid ac eraill, paratoi ar gyfer brwydr, digwyddiadau'n arwain at frwydr: 1? (hefyd 3a), 9–11, 13 (hefyd 3c?), 14–15, 47?, 49–51?,<sup>37</sup> 81, 87–8, 107–9 (107 hefyd 3a), 128–31, 132–6 (hefyd 1a), 147–8 (hefyd 4c), 149 (hefyd 4c), 151, 153, 182
- 4(b): Ymladd yn erbyn y Saeson: 4–6 (hefyd 6), 16, 17–18 (hefyd 3a, 3d?), 20–2 (21 hefyd 2b, 3b), 54–61 (hefyd 4c), 62?, 73, 77–8, 82 (hefyd 5a), 89, 91–2, 98 (hefyd 2b, 3b, 6), 103–4, 105–6, 110, 115, 116, 117–19, 120 (hefyd 4c), 121–4 (hefyd 4c), 145, 154 (hefyd 4a), 157–8, 166
- 4(c): Saeson yn ffoi / yn cael eu lladd gyda'r Cymry'n fuddugol: 7, 8 (hefyd 6), 12 (hefyd 6), 19, 28, 30, 63–6, 68–71 (69 hefyd 2b, 3b), 72 (hefyd 2b, 3b), 74, 79, 84, 90, 93–4, 96, 111–12, 120 (hefyd 4b), 121–4 (hefyd 4b), 138 (hefyd 3b), 148 (hefyd 4a), 150 (hefyd 4a), 152 (hefyd 4a), 155, 156 (hefyd 3b), 181, 186 (hefyd 6), 189 (hefyd 4d)
- 4(d): Digwyddiadau yn syth ar ôl i'r Saeson golli: 75–6, 80, 95 (hefyd 6), 187–8, 190–1 (hefyd 4c)

#### Cyfnod 5: Dymuno ymladd i waredu'r Cymry rhag y Saeson

(Yn aml, nid oes gwahaniaeth clir rhwng yr israniadau ac nid yw'n hawdd gwahaniaethu rhwng dymuniad a ffaith chwaith.)

- 5(a) cynghreirio ymysg y Brythoniaid ac eraill, paratoi ar gyfer brwydr, digwyddiadau yn arwain at frwydr: 82 (hefyd 4b), 99–101, 178–80 (hefyd 2a), 193, 196
- 5(b): Ymladd yn erbyn y Saeson: 38, 41 (hefyd 3b), 52, 53?, 102–3 (hefyd 3b, 4b), 113–14 (hefyd 3b, 4b), 141, 142–4 (hefyd 2b, 3b)
- 5(c): Saeson yn ffoi / yn cael eu lladd: 27 (hefyd 1b), 29 (hefyd 3d, 6), 43–4, 160–2
- 5(d): Digwyddiadau yn syth ar ôl i'r Saeson golli: 177

#### Cyfnod 6: Y sefyllfa ar ôl gwaredu'r Cymry rhag y Saeson

- 2–3, 8 (hefyd 4c), 12 (hefyd 4c), 67, 86, 95, 97, 98 (hefyd 2b, 3b, 4b), 163–5, 167–70, 171–6 (hefyd 3a), 183–4, 185 (hefyd 4c), 192

Gwelir o'r crynodeb hwn fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol ym mhob rhan o'r gerdd. Nid yw hyn yn meddwl nad yw gwahanol rannau o'r gerdd â gwahanol ganolbwyntiau amser ac mae hyn yn haeddu ystyriaeth. Mae'r golygiadau o *Armes Prydein Vawr* yn

---

<sup>37</sup> Llinellau amwys, gw. ymhellach t. 0000 uchod.

rhannu'r gerdd yn ôl y brifodl yn bennaf ac yn wahanol i'r rhaniadau a geir yn y llawysgrif, fel y gwelir o'r tabl isod:

Llyfr Taliesin	Williams ( <i>ArmP</i> )	Isaac ( <i>ArmPF</i> ) <sup>38</sup>
1–16 (Rhaniad 1)	1–16	1–24 <sup>39</sup> (I)
17–44 (Rhaniad 2)	17–44 <sup>40</sup>	25–44 (II)
45–106 (Rhaniad 3)	45–68	45–68 <sup>41</sup> (III)
107–24 (Rhaniad 4)	69–86	69–86 (IV)
125–70 (Rhaniad 5)	87–106	87–106 (V)
171–99 (Rhaniad 6)	107–26	107–26 (VI)
	127–46	127–46 (VII)
	147–70	147–70 (VIII)
	171–99	171–99 (IX)

Yn ogystal â rhannu'r gerdd yn naw adran (yr un adrannau ag Ifor Williams ac eithrio un), mae Isaac yn rhannu'r adrannau yn bedwar grŵp i egluro strwythur y gerdd: I–II = esboniad; III–VII = datblygiad; VIII = uchafbwynt; IX = coda. Dychwelwn at y grwpiau hyn ymhellach isod.

Cyn trafod y rhaniadau fesul un, dylid pwysleisio'r pwynt amlwg nad yw amser yn symud yn gronolegol gyson yn *Armes Prydein*. Mewn rhai llenyddiaethau eraill, disgwylid math o naratif mewn cerddi lle byddai amser yn datblygu'n gronolegol dros gannoedd o linellau. Nid dyna a geir mewn barddoniaeth gynnar Gymraeg ac yn sicr nid dyna a geir yn *Armes Prydein*.<sup>42</sup> Ychydig iawn o gyfresi naratif, lle mae amser yn symud ymlaen, a geir yn y gerdd. Ceir yr enghraifft hwyaf yn llinellau 73–6:

na6 ugein canh6r y discynnant. (Cymal Naratif)

Bydd naw ugain cant o wŷr yn ymosod,

<sup>38</sup> Er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt, defnyddir y term 'rhaniad' ar gyfer rhaniadau'r gerdd yn Llyfr Taliesin ei hun ac 'adran' ar gyfer rhaniadau Ifor Williams a Graham Isaac. Isaac yn unig sy'n rhifo ei adrannau. Rhoddir rhif yr adran ar ôl rhifau'r llinellau.

<sup>39</sup> Yn *ArmPF* mae Isaac yn trin ll. 24 fel glôs.

<sup>40</sup> Tra bo Ifor Williams yn rhannu'r testun fel hyn yn y golygiad, yn y rhagymadrodd noda mai llau 1–23 yw'r awdl gyntaf ac mai llau 25–44 yw'r ail awdl, gyda ll. 24 yn glôs; cf. *ArmPF* 1–lii.

<sup>41</sup> Nodwyd '45–63' ar ddamwain yn *ArmPF* 163.

<sup>42</sup> Am drosolwg o elfennau naratif yn y farddoniaeth gynnar, gw. Callander, *Dissonant Neighbours*.



ma'or watwar namyn petwar nyt atcorant. (Cymal Naratif)	dirmyg mawr, dim ond pedwar (cant) a ddychwelant.
dyhed y eu g'wagedd a dywedant. (Cymal Naratif Paralel)	Dywedant wrth eu gwagedd am y rhyfel,
eu crysseu yn lla'ón creu a orolchant. (Cymal Naratif Paralel)	golchant eu crysau sy'n llawn gwaed.

Heb fanylu ar theori naratif, ymddengys fod cyfres naratif yma.<sup>43</sup> Bydd y 18,000 o filwyr Seisnig yn ymosod (digwyddiad 1); dim ond pedwar cant fydd yn dychwelyd (digwyddiad 2). Yn y cyd-destun hwn, rhaid bod digwyddiad 2 yn dilyn digwyddiad 1 mewn trefn gronolegol. Wedyn ceir disgrifiad o ddau ddigwyddiad yr ymddengys eu bod yn digwydd ar ôl digwyddiad 2: byddant yn dweud wrth eu gwagedd am yr ymladd a byddant yn golchi eu crysau gwaedlyd. Triniwn y rhain yn gydamserol yma; gall fod un yn digwydd ar ôl y llall, ond nid oes modd gwybod. Felly mae tair uned mewn trefn gronolegol yn y dyfyniad: yr ymosodiad, y dychwelyd truenus, a'r hyn a wnânt ar ôl dychwelyd. Dim ond ar sail rhesymeg y gellir pennu trefn gronolegol yma. Nid oes geirynnau megis *yna* a allai egluro'r drefn. Hyd yn oed yn yr achos hwn, nid yw ein dehongliad yn hollol sicr. Os 'disgynant yn farw' yw ystyr *discynnant* yn hytrach nag 'ymosodant', wedyn byddai digwyddiad 1 a digwyddiad 2 o bosibl yn gydamserol: rhai yn marw, rhai yn ffoi. Mae cyfresi naratif (prin) eraill y gerdd hyd yn oed yn llai o ran hyd ac yn fwy amwys ac nid yw'r un ohonynt yn cynnwys mwy na dwy elfen.<sup>44</sup> Ni cheir cyfresi naratif estynedig o gwbl yn *Armes Prydein*. O ran dehongli'r gerdd gyfan, felly, dylid cofio'r pwynt sylfaenol nad yw rhannau o'r gerdd sy'n digwydd yn ddiweddarach o ran eu rhif llinell o reidrwydd yn ddiweddarach mewn trefn gronolegol.

Canolbwyntia'r drafodaeth isod ar leoliad pob rhaniad llawysgrifol o'r gerdd mewn amser. Mae pob rhif rhaniad (1–6) yn nodi'r rhaniad yn Llyfr Taliesin (a nodir gan briflythrennau coch yn y llawysgrif).<sup>45</sup> Dilyniir hyn gan ddisgrifiad o amser yn y rhaniad, a chymhariaeth gyda'r ymdriniaeth â'r adrannau yng ngolygiadau Williams ac Isaac.

## Rhaniad 1: llinellau 1–16

---

<sup>43</sup> Am y theori sy'n sail i'r ymdriniaeth hon, gw. David Callander, 'Die diachrone Entwicklung der Erzählung in der kymrischen Heiligendichtung', yn Eva von Contzen a Florian Kragl (goln), *Narratologie und mittelalterliches Erzählen* (Berlin: De Gruyter, 2018), 101–24; cymh. Callander, *Dissonant Neighbours*, 6–15.

<sup>44</sup> Ceir cyfresi naratif posibl eraill yn llau 107–11, 147–8, 149–50 a 151–2.

<sup>45</sup> Dim ond llythyren fach i nodi y dylid ychwanegu'r briflythyren goch sydd ar ddechrau ll. 171.

Symudir rhwng presennol y darogan a chyfnodau gwahanol yn y dyfodol heb ddilyn trefn gronolegol, yn cynnwys yn bennaf: y cynghreiriaid yn dod ynghyd, brwydro yn erbyn y Saeson a pheri iddynt ffoi, a'r dyfodol llewyrchus wedi'r fuddugoliaeth.

Mae Williams yn dilyn y rhaniad hwn yn y golygiad, er ei fod yn nodi yn ei ragymadrodd y dylid ystyried llinellau 1–23 yn un awdl.<sup>46</sup> Ymestyn Isaac ei adran gyntaf i linell 23 ar sail odl. Dadleua'r ddau fod llinell 24 yn ychwanegiad.<sup>47</sup> Mae'r defnydd o *dy(s)gogan* ar ddechrau'r rhaniad newydd yn rhoi peth cyfiawnhad dros y rhaniad sydd yn y llawysgrif.<sup>48</sup>

#### Rhaniad 2: llinellau 17–44

Hyd at linell 24, mae prif ffocws y rhaniad hwn ar yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol pan ddaw *meiryon mechteyrn* i Aber Peryddon. Er hynny, mae cysylltiad rhwng y dyfodol hwn a'r gorffennol/presennol hefyd, gan mai'r goblygiad yw y bydd y dyfodol (lladd y meiri gan y Cymry) yn wahanol i'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn (casglu trethi gan y Cymry). O linell 24 ymlaen symuda'r ffocws i gynnwys rhagor o'r gorffennol.<sup>49</sup> Cysylltir gweithredoedd y Saeson yn y gorffennol gyda gweithredoedd y Cymry yn eu herbyn yn y dyfodol. Mae cynnwys llinellau 17–23 yn y rhaniad hwn (yn hytrach nag yn yr adran flaenorol fel y gwna Isaac) yn rhoi undod thematig i'r rhaniad, a ganolbwyntia yn bennaf ar droseddau'r Saeson yn erbyn y Cymry, yn y presennol a'r gorffennol.

Dilyn Williams y rhaniad hwn yn ei olygiad, er bod ei ragymadrodd yn awgrymu bod yr ail adran yn dechrau gyda llinell 25. Mae ail adran Isaac yn rhychwantu llinellau 25–44, fel y nodir uchod. Noda fod llinellau olaf yr adran yn awgrymu rhyw strategaeth gan y Saeson i ddinistrio'r Brythoniaid unwaith ac am byth, rhywbeth y mae'r Cymry yn ei wrthsefyll ac yn dymuno i'r Drindod ei wrthsefyll hefyd (llau 41–4).<sup>50</sup> Mae'r llinellau hyn yn gosod ymosodiadau'r Saeson ar Brydain yn y dyfodol posibl, ac yn awgrymu cysylltiad pellach rhwng eu trosedd gwreiddiol yn cipio Thanet a'r hyn y mae'r bardd yn ei ddarogan.

#### Rhaniad 3: llinellau 45–106

---

<sup>46</sup> *ArmP* xliii.

<sup>47</sup> Ymhellach, gw. uchod t. 0000.

<sup>48</sup> Ymhellach, gw. isod t. 0000.

<sup>49</sup> Noder bod hyn i'w gysylltu'n rhannol â newid yn yr odl, sy'n golygu nad oes cymaint o ffurfiau berfol *-yn(t)*.

<sup>50</sup> *ArmPF* 163.

Mae'n ansicr pa un ai'r gorffennol, y presennol neu'r dyfodol yw'r amser ar ddechrau'r rhaniad hwn, a hynny'n fwriadol o bosibl. Canolbwyntia llinellau 54–68 ar ymladd yn erbyn y Saeson yn y dyfodol. Y dyfodol yw canolbwynt llinellau 69–86 hefyd ond ceir trafodaeth benodol ar y meiri sy'n casglu trethi a brwydr yn Aber Peryddon yn ogystal â Chadwaladr yn dod gyda'i fyddinoedd, gydag ychydig mwy o gyffredinoli ar ôl llinell 77 a rhai cysylltiadau â'r gorffennol (fel yn rhaniad 2, y goblygiad yw bod casglu trethi yn weithred arferol). Canolbwyntia llinellau 87–106 ar guro'r Saeson yn y dyfodol.

Rhanna Williams ac Isaac y rhaniad hwn yn dair adran: llinellau 45–68 (adran III); llinellau 69–86 (adran IV); llinellau 87–106 (adran V). Tra bo'r adrannau hyn wedi eu seilio ar odl, cyfatebant yn fras i'r grwpiau o linellau a nodir yn y paragraff uchod i amlygu newidiadau mewn canolbwynt. Hynny yw, edrydd trydedd adran Williams ac Isaac am ymladd yn erbyn y Saeson yn y dyfodol, edrydd y bedwaredd adran am frwydro yn erbyn y meiri yn benodol, a disgrifia'r bumed adran y sefyllfa wedi'r llwyddiant. Ond mae hyn yn gorsymleiddio a gorgymhlethu ar yr un pryd. Mewn termau syml, canolbwyntia tair adran Williams ac Isaac ar y dyfodol yn bennaf, gyda ffocws ar ymladd yn erbyn y Saeson, eu lladd a'u gorfodi i ffoi. Mae'r gorsymleiddio yn dod wrth rannu'r elfennau hyn o ddarogan am y dyfodol yn unedau hunangynhwysol. Hynny yw, ni chyfyngir brwydro yn erbyn y meiri, er enghraifft, i adran IV Williams ac Isaac yn unig. Yn adran III cyfeirir at y meiri yn marw (ll. 63) ac yn adran V datgan y bardd na dderbynia'r Saeson gyfoeth gan y Cymry heb frwydr (llau 102–4). Er cymaint y ffocws ar y dyfodol, ceir cysylltiadau gyda'r presennol a'r gorffennol, megis y cyfeiriad at *trallaŵt gynt* (ll. 98). Felly, tra gellid cyfiawnhau rhannu'r rhaniad hwn yn dair adran ar sail odl, ni ellir pwyso ar dybiaeth o strwythur cronolegol y gerdd am gyfiawnhad pellach.

#### Rhaniad 4: llinellau 107–24

Canolbwyntir bron yn llwyr ar ymladd yn y dyfodol yma. Sonnir yn y llinellau cyntaf (llau 107–10) am gynghreirio ymysg y Saeson a'u bwriad i drechu'r Cymry, a chanolbwyntia gweddill y rhaniad ar y frwydr yn bennaf. Ceir rhai cysylltiadau gyda'r presennol a'r gorffennol hefyd, gan fod y bardd yn yn sôn am y Cymry yn dial am y trethi (ll. 123).

Mae Williams ac Isaac yn estyn y rhaniad hwn i gynnwys llinellau 125 a 126. Gan fod llygad yr ysgrifydd yn amlwg wedi neidio o un enghraifft o *Dygorfu kymry* i'r llall yn y testun (gan achosi iddo gopïo y *peri* yn ll. 125 cyn ei ddileu), mae'n ddigon posibl mai ar ddechrau llinell 127 yr oedd y briflythyren i fod, a bod y rhaniad wedi dilyn yr odl yn y gysail.

#### Rhaniad 5: llinellau 125–70

Ceir rhagor o bwyslais ar y gorffennol (gyda'r rhaniad newydd, yn hytrach na chyda'r odl). Yn llinellau 125–46 mae ffocws cryf ar y gorffennol (dyfodiad y Saeson i Brydain yn enwedig) a'r dyfodol (pan gyferfydd y Cymry a'u cefnogwyr â'r Saeson a dial arnynt). Unwaith eto, crea'r bardd gysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau gyfnod, gan awgrymu bod cysylltiad rhwng dyfodiad cyntaf y Saeson a'r angen i frwydro yn eu herbyn. Pwysleisia llinellau 147–55 y dyfodol yn gryf iawn (gan ganolbwyntio ar y cynghreiriaid yn dod i frwydro yn erbyn y Saeson), ond symuda llinell 156 i gynnwys y gorffennol a'r presennol. Fel y disgwyliem, wrth ymwneud â'r Saeson, dymchwel y bardd y waliau rhwng gwahanol gyfnodau: mae'r datganiad nad oes gan y Saeson dir yn llinell 156 yn cynnig cysylltiad rhwng eu statws fel alltudion pan gyraeddasant Brydain am y tro cyntaf, a'u statws fel alltudion unwaith eto pan fydd y Cymry yn eu gyrru oddi yno. Canolbwyntia llinellau 157–62 ar y dyfodol ac yn enwedig ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Canolbwyntir eto ar y dyfodol yn llinellau 163–70 ond gyda llai o bwyslais; yn hytrach pwysleisir yr hyn sy'n fythol, a phrin y defnyddir unrhyw ferfau.<sup>51</sup>

Cynhwysa Williams ac Isaac llinellau 125 a 126 yn yr adran flaenorol a rhannant y rhaniad hwn yn ddwy: adran VII (llau 127–46) ac adran VIII (llau 147–70). Rhydd yr ymdriniaeth ag amser rywfaint o gefnogaeth i'r newid hwn gan fod y gerdd yn symud o ganolbwyntio ar y gorffennol a'r dyfodol yn adran VII i ganolbwyntio'n fwy penodol ar y dyfodol yn adran VIII. Mae rhai eithriadau i'r patrwm, ac mae ffocws llinell 156 ar y gorffennol yn sefyll allan. Pwysig nodi hefyd fod rhai cysylltiadau rhwng y ddwy adran, megis yn y cyfeiriadau at gynghreiriaid y Cymry.

#### Rhaniad 6: llinellau 171–99

Canolbwyntir ar y dyfodol gan ei gysylltu â phresennol y gerdd a'r presennol bythol (ychydig iawn o orffennol sydd yn y rhaniad hwn, ond noder bod y Saeson yn dal i gael eu cysylltu â'r *adventus Saxonum* (*Danet*, ll. 173, *Aber Santwic*, ll. 188). Y cynghreirio a marwolaeth y Saeson a bwysleisir yn hytrach na'r ymladd ei hun. Daw'r gerdd i ben yn llinellau 193–9 gan roi sylw i'r hyn sy'n wirioneddol dragwyddol, sef Duw a Dewi yn y nefoedd, a chan fynegi dymuniad iddynt arwain y Cymry mewn buddugoliaeth nes Dydd y Farn. Mae adran olaf Ifor Williams a Graham Isaac (rhif IX) yn dilyn y rhaniad hwn, er nad oes newid yn yr odl.

Yn gyffredinol, awgrymwn na ddylid gwrthod rhaniadau Llyfr Taliesin heb reswm da. Roedd yr ysgrifydd yn amlwg yn deall y testun yn bur dda, er nad yn hollol, ac roedd yn copïo o gysail hŷn

---

<sup>51</sup> Cymh. Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: GPC, 1932), 17.

(er na ellir bod yn sicr i ba raddau y cadwodd raniadau ei gynsail). Mae rhannu'r gerdd ar sail y brifodl yn bwysig, yn achos ysgrifydd Llyfr Taliesin yn ogystal â'r golygyddion modern, ac mae'r ffin rhwng rhaniadau 2 a 3 a rhwng 3 a 4 yn cyd-fynd â newid yn yr odl. Mae lle i gredu, hefyd, y dylai rhaniad 5 ddechrau yn llinell 127 ac mai canlyniad i gamgymeriad copïo gan yr ysgrifydd oedd dechrau yn llinell 125.<sup>52</sup> Ond ni ellir esbonio'r ffin rhwng rhaniadau 1 a 2 a rhwng 5 a 6 (a gedwir gan Williams ac Isaac) ar sail odl. Nid oes dim i awgrymu bod y testun wedi ei rannu yma ar sail odl yn y gynsail a bod yr ysgrifydd wedi camgymryd. Felly hefyd yn achos y newidiadau mewn odl nad ydynt yn ysgogi rhaniad newydd yn y llawysgrif (fel yn llau 69, 87 a 147).<sup>53</sup> Mae mynnu rhannu'r gerdd ar sail odl yn unig yn symud i ffwrdd oddi wrth gynllun ysgrifydd Llyfr Taliesin i ryw raddau. Mae hefyd yn amhosibl ei rhannu'n hawdd a thacclus trwy lynu wrth odl, fel y dengys llinellau megis llinell 24.<sup>54</sup> Ffafia Williams ac Isaac rannu'r gerdd ar sail odl, ond heb wneud hynny'n llwyr, gan i'r ddau gadw rhaniad 6 y llawysgrif (llau 171–99) nas seilir ar odl. Ymddengys, felly, fod ffactorau eraill hefyd o bwys wrth rannu'r gerdd yn y llawysgrif, megis ailadrodd y gair *Dy(s)gogan*, sy'n dechrau rhaniadau 1 (ll. 1), 2 (ll. 17), 4 (ll. 107) a 6 (ll. 171), a dim ond mewn un achos (rhaniad 4) yn cyd-fynd â newid yn yr odl. Dechreuir rhaniad newydd yn y llawysgrif bob tro y ceir y ffurf *Dy(s)gogan* ac mae'n rhaid bod hyn yn cynrychioli rhaniad arwyddocaol o bersbectif yr ysgrifydd.<sup>55</sup>

O ran amser, mae'r symud cyson rhwng gwahanol gyfnodau (weithiau o fewn yr un llinell) yn golygu nad oes, fel arfer, drefn gronolegol i'r gerdd, ac na ddylid ceisio ei rhannu ar sail honno. Daw hyn yn amlwg wrth gymharu rhaniadau'r llawysgrif gyda'r adrannau yng ngolygiadau Williams ac Isaac. Mewn rhai achosion mae'r strwythur neu ganolbwynt mewn amser yn dilyn eu rhaniadau hwy i raddau, er enghraifft, wrth rannu rhaniad 5 yn ddwy adran. Ond, o ystyried y gorgyffwrdd rhwng cyfnodau gwahanol mewn llinellau unigol, er bod rhai adrannau yn canolbwyntio mwy ar un cyfnod nag adrannau eraill, rhaid bod yn ofalus wrth greu rhaniadau sy'n groes i'r hyn a geir yn y llawysgrif ei hun. Ar y cyfan, ni ellir cyfiawnhau rhannu'r testun ar sail canolbwynt amser neu drefn gronolegol. Felly gellir cyfiawnhau cadw rhaniad 6 yn y golygiadau gan ei fod yn y llawysgrif, ond ni ellid ei gyfiawnhau ar sail canolbwynt amseryddol yn unig. Yn rhaniad 6, canolbwyntia llinellau 195–9 ar yr

---

<sup>52</sup> Gw. uchod t. 0000.

<sup>53</sup> Mae *M* a *G* ar ddechrau llau 69 a 147 yn briflythrennau bach, ond ceir yr un math o briflythrennau yn weddol aml ar ddechrau llinellau yn y testun, felly anodd gweld arwyddocâd penodol iddynt yma.

<sup>54</sup> Gw. ymhellach uchod t. 0000.

<sup>55</sup> Ni ddechreuir adran newydd pan ddefnyddir y ffurf amhrs. pres. dib. *dygoganher* yn ll. 13. Dechreua Cynddelw yntau ei gerdd 'Canu i Owain Cyfeiliog' â'r gair *Dysgogan*, ac awgrymwyd mai adleisio *Armes Prydein Vawr* a wnâi, gw. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (goln), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I* (Caerdydd: GPC, 1991), 210.

hyn sy'n fythol bresennol, mewn cymhariaeth â'r cymysgu rhwng y dyfodol bydol ac amseroedd eraill sy'n nodweddu gweddill y rhaniad. Felly os am rannu ar sail amser, byddai llinellau 195–9 yn rhaniad mwy synhwyrol na rhaniad 6 fel y saif (llau 171–99); ond byddai creu rhaniad mor fach yn mynd yn gwbl groes i arfer ysgrifydd Llyfr Taliesin. Ein rhaniad ni yn unig fyddai hwn, ac un a wadai gymysgu bwriadol rhwng yr amseroedd yn y gerdd.

Mae hyn yn berthnasol i gais Isaac i rannu llinellau'r testun yn bedwar grŵp (a seilir yn y pen draw ar ei adrannau, nad ydynt yn adlewyrchu rhaniadau'r llawysgrif fel arfer). O ystyried strwythur amseryddol y gerdd yn fwy cyffredinol, mae grwpiau Isaac – I–II = esboniad; III–VII = datblygiad; VIII = uchafbwynt; IX = coda – yn tueddu i fod yn rhy syml. Yn sicr mae rhannau o'r gerdd yn canolbwyntio'n benodol ar yr hyn a wnaeth y Saeson yn y gorffennol a sut y maent yn haeddu cael eu halltudio o Brydain o achos hynny, ac mae rhannau hir yn amlinellu'r brwydro rhwng y Cymry a'r Saeson. Ond ni chyfyngir yr esboniad i'r rhaniadau cynharaf, ac nid oes datblygiad naratif amlwg rhwng y gwahanol rannau.<sup>56</sup> Felly, er bod amlinelliad bras o'r achos dros ymladd yng ngrŵp cyntaf Isaac, ni welir symudiad amlwg o esbonio i ddatblygu. Er i'r bardd enwi rhai aelodau o'r gynghrair yn y rhaniad cyntaf, dim ond yn rhaniad 5 (adran VIII Williams ac Isaac) y cyfeirir at gymorth yn dod o Lydaw (ll. 153), wedi disgrifiadau hirfaith o'r brwydro a fydd yn digwydd rhwng y cynghreiriaid a'r Saeson. Nid yw'n amlwg a oes gan y cyfeiriad at Lydaw swyddogaeth wahanol i'r cyfeiriadau at wahanol bobloedd fel *Cornyw a Chludwys* yn y rhaniad cyntaf, felly anodd dweud bod y naill yn rhan o 'ddatblygiad' a'r llall yn rhan o 'esboniad'. Er bod esboniad o droseddau'r Saeson yn ail raniad y gerdd, mae cyfeiriadau atynt fel pobl heb dir (ll. 156) – yn ogystal â chyfeiriadau at y Saeson yng nghyd-destun Gwrtheyrn (llau 27, 137) a'r trethi a gasglant gan y Cymry (llau 21, 72, 84, 86, 123) – yn cysylltu Saeson y presennol a'r dyfodol gyda'u troseddau yn y gorffennol, ac felly'n egluro'r achos ymhellach. Mae'r esboniad a'r datblygiad a'r uchafbwynt ynghlwm yn ei gilydd. Mae Isaac yn trin adran VIII (llau 147–70) fel uchafbwynt oherwydd y ganmoliaeth o Gynan a Chadwaladr yn llinellau 165–70.<sup>57</sup> Eto, trwy gydol y gerdd canolbwyntir ar y gefnogaeth a geir i'r gynghrair gan Dduw, Dewi a seintiau Prydain, ac mae hyn yn cyrraedd uchafbwynt yn y rhaniad terfynol, a llinellau 195–9 yn benodol, wrth i'r bardd droi at y Duw digyfnewid a thragwyddol.<sup>58</sup> Er i'r cyfeiriadau hanesyddol ddaearol fynd â bryd ysgolheigion diweddar, mae'r pwyslais ar Dduw yma yn dangos bod y rhaniad olaf yn llawer mwy allweddol i'r gerdd nag y byddai ei alw'n goda yn ei awgrymu. Er

---

<sup>56</sup> Gw. uchod, tt. 0000.

<sup>57</sup> *ArmPF* 164.

<sup>58</sup> Gw. uchod t. 0000.

y canolbwyntio ar y dyfodol (a'r dyfodol pell) yn rhaniad 6, ni ellir ei osod ar ôl unrhyw raniad arall yn gronolegol: mae'r bardd yn dal i blethu amseroedd. Yn y llinellau olaf, ni thry at y dyfodol pellach ond at y presennol dwyfol, at y Duw sydd yno i'r Cymry trwy'r holl gyfnodau a gyplysir yn y gerdd.

### *Casgliadau*

Ar un ystyr, mae *Armes Prydein Vawr* yn gerdd sy'n cynnig llawer o wybodaeth am amser. Mae geiriau ac ymadroddion amser, ynghyd â defnydd helaeth o ferfau trydydd person, yn cynnig lefel anarferol o *deixis* mewn cerdd gynnar Gymraeg. Ac eto, ni ddefnyddir yr wybodaeth hon i drefnu'r gerdd yn gronolegol. Ni fwriadwyd y fath drefnu cronolegol, a dim ond ni heddiw sy'n dymuno gweld trefn o'r fath er mwyn symleiddio dehongli'r gerdd a'i chyfieithu. Yn wir, mae *deixis* y gerdd yn fwy tebygol o bwysleisio diffyg symud neu symudiad cylchol, ac mae hyn yn allweddol i swyddogaeth y testun. Yr un yw Saeson y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Cydblethir digwyddiadau neu sefyllfaoedd a gysylltir â'r tri amser a disgrifir Saeson y dyfodol mewn termau sy'n eu cysylltu'n ddiamwys â Saeson y gorffennol a'r *adventus Saxonum*. Yr un yw'r Cymry bob amser hefyd. Maent wedi colli eu gogoniant yn y gorffennol a'r presennol ond mae ganddynt hwy fel pobl ddyfodol gwell o'u blaenau a byddant yn parhau'n genedl nes cyrraedd y dyfodol hwnnw. Pwrpasol yw'r amwysedd amseryddol wrth ymdrin â gweithredoedd y Saeson a'r Cymry, sy'n gallu dymchwel ffiniau rhwng y gorffennol a'r presennol.

Mae'n hawdd meddwl bod y rhan fwyaf o'r gwaith y gellid ei wneud ar *Armes Prydein* bellach wedi ei gwblhau. Ond mae'r astudiaeth hon yn dangos bod llawer o wybodaeth i'w chael o'r gerdd o hyd. Rydym wedi dangos sut y mae deongliadau golygyddol yn gallu llywio ein dehongliad o'r gerdd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos diwygiadau i'r testun. Cyflwynodd Ifor Williams, a Rachel Bromwich ar ei ôl, nifer o ddiwygiadau ar sail dehongliad o amser, er enghraifft am na thybid bod yr amser gorffennol yn taro'n addas mewn proffwydoliaeth.<sup>59</sup> Ond mae'r gorffennol yr un mor bwysig yn *Armes Prydein* â'r dyfodol. Dyma destun sy'n creu ei ddyfodol ar sail dehongliad o'r gorffennol ac mae angen bod yn dra gofalus wrth newid amser ffurfiau'r testun, gan fod yr ysgrifydd yn amlwg wedi copïo'r rhan fwyaf o'r geiriau yn gywir. Cytunir, felly, gyda Graham Isaac, nad oes angen diwygio *dygorfu* ddwywaith yn *dygorfi* (llau 125, 127).<sup>60</sup> Mae ymdriniaeth fanwl ag *oed* hefyd yn awgrymu na ddylid diwygio *oedyn* yn *bydyn* (ll. 62).<sup>61</sup> Ni welir chwaith fod angen diwygio

---

<sup>59</sup> Gw. uchod t. 0000.

<sup>60</sup> *ArmPF* 176.

<sup>61</sup> *ArmP* 35.

*dygoganher* yn *dygoganheth* yn llinell 13. Mae cyfieithiad safonol Rachel Bromwich, y seilir llawer o waith hanesyddol arno, yn derbyn y pedwar diwygiad uchod. O ystyried mai testun barddonol yw hwn, sy'n gymharol fyr mewn cymhariaeth â thestunau rhyddiaith y cyfnod, mae diwygio bedair gwaith ar sail dehongliad o amser yn newid sylweddol. Mae'r diwygiadau yn rhoi canolbwynt gwahanol i linellau 13, 125, a 127. Try llinell 13 yn ddatganiad am y gorffennol yn lle dymuniad neu ddatganiad am y dyfodol. Try llinellau 125 a 127 yn ddatganiadau am Gymry'r dyfodol yn lle Cymry'r gorffennol. Gall fod yr ysgrifydd wedi camgopïo ei gysail, ond nid oes arwydd o hynny yn y pedair enghraifft uchod ac nid yw'r llinellau yn llai gramadegol o beidio â'u diwygio. Mae'r un dadleuon yn berthnasol i newidiadau golygyddol i raniadau'r gerdd. Ni ddylid newid rhaniadau Llyfr Taliesin heb reswm, ac ni welir bod modd cyfiawnhau rhannu'r testun o'r newydd ar sail datblygiad cronolegol. Nid oes datblygiad naratif amlwg yn y gerdd, ac nid yw rhai rhaniadau ohoni'n amlwg yn datblygu stori tra bo eraill yn esbonio: cymysgir yr elfennau hyn trwy'r gerdd gyfan.

Er nad ydynt yn ffurfio cyfresi cronolegol estynedig, mae nifer o batrymau arwyddocaol yn y defnydd o eiriau ac ymadroddion amser yn y gerdd. Gallant bwysleisio cyfnod penodol, fel y gwna'r enghreifftiau mynych o *pan* yn aml. Mae *gwedy* yn creu cysylltiad clir rhwng y Cymry yn ymladd a'r sefyllfa ogoneddus y byddant ynddi wedi eu buddugoliaeth. Tua diwedd y gerdd, ceir rhagor o ffocws ar y dyfodol pell (er nad yw'r presennol a'r gorffennol yn diflannu), a bwysleisir gan ddwy enghraifft o *hyd vraot* ('hyd Ddydd y Farn'). Mae patrymau arwyddocaol yn y defnydd tra helaeth o ferfau hefyd. Mae'r ffurfiau *-ynt*, a all fod yn bresennol mynegol (gyda'r gallu i gyfeirio at y dyfodol) neu'n amherffaith, yn herio'r ffin rhwng y presennol, y dyfodol a'r gorffennol ac yn gadael i'r gerdd gydblethu'r amseroedd hynny. Ymddengys fod gan *oed* swyddogaeth amodolyn y gerdd, ac i'r ffurf gael ei defnyddio i gyfeirio at y dyfodol yn ogystal â'r gorffennol, gan eu cyfuno weithiau mewn ffordd debyg i'r terfyniad *-ynt*. Ond mae *oed* hefyd yn bwrw ychydig o amheuaeth ar sicrwydd y dyfodol a broffwydir. Os 'o dan yr amgylchiadau dyfodol hynny, byddai ...' yw ystyr *oed* yma, mae gwahaniaeth pwysig rhwng hynny a 'bydd'. Er bod llawer o ferfau *Armes Prydein* yn amwys o ran eu cyfeiriad amser, weithiau ceir clystyrau o ffurfiau diamwys i bwysleisio dymuniad neu ddatganiad, megis yn llinellau 115–20 a 159–62.

Wrth esbonio i Rachel Bromwich pam na ddewisodd gynnwys *Armes Prydein Vawr* yn yr *Oxford Book of Welsh Verse*, meddai Syr Thomas Parry, '*Armes Prydain* is historically most fascinating, and it is vigorous propaganda, but it has never struck me as being particularly fine poetry.'<sup>62</sup> Gobeithir bod y drafodaeth uchod yn dangos bod y bardd wedi ymwneud ag amser mewn ffordd bwrpasol a chelfydd er mwyn cryfhau ei alwad ar i'r Cymry godi ac alltudio'r Saeson. Bydd rhagor o

---

<sup>62</sup> Derec Llwyd Morgan, *Y Brenhinbren: Bywyd a Gwaith Thomas Parry 1904–1985* (Llandysul: Gomer, 2013), 244.



astudiaethau llenyddol o'r gerdd yn dra defnyddiol er mwyn cynyddu ein gwybodaeth o'i chrefft arbennig, yn enwedig yng nghyd-destun ehangach proffwydoliaethau cynnar Cymraeg.<sup>63</sup>

---

<sup>63</sup> Ar y cyd-destun proffwydol, cymh. Haycock, *Prophecies*, 1–18; Margaret E. Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff: UWP, 1937); Manon B. Jenkins, 'Aspects of the Welsh Prophetic Verse Tradition in the Middle Ages', unpublished PhD thesis, University of Cambridge, 1990.

## *Atodiad 1: Testun Anodedig*

Cyflwynir yma destun *Armes Prydein Vawr* o Lyfr Taliesin, wedi ei linellu yn ôl y brifodl.<sup>64</sup> Cedwir atalnodi'r llawysgrif, ei phriflythrennau a'i horgraff. Diwygir yn unig lle credir bod hynny'n angenrheidiol, a nodir darlleniad y llawysgrif ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn y troednodiadau (lle gwelir ein dyled enfawr i waith golygyddol Ifor Williams, Rachel Bromwich a Graham Isaac). Defnyddir < > i ddynodi llythrennau a hepgorwyd a [ ] i ddynodi llythrennau a ychwanegwyd. Dynodir llythrennau unigol a ddiwygiwyd gan lythrennau italig. Disgrifir pob berf yn ôl rhif, person ac amser (gan ddefnyddio pres./dyf. os yw'n ferf bresennol fynegol all gyfeirio at y presennol neu'r dyfodol). Dehonglir y ffurfiau'n fynegol oni nodir eu bod yn ddibynnol (gellir cymharu'r wybodaeth fanylach yn Atodiad 2.) Amlygir amser y ferf a geirynnau/ymadroddion amser gan lythrennau trwm.

Yng ngholofn chwith y tabl, rhoddir gwybodaeth am amser llinellau'r gerdd. Fel y nodwyd eisoes, mae'r amser yn aml yn amwys, felly mae'n bosibl y gall yr un llinellau gyfeirio at fwy nag un amser.

---

<sup>64</sup> Cymharwyd golygiadau Williams (*ArmP*) ac Isaac (*ArmPF*) a thrawsysgrifiad Gwenogvryn Evans (gol.), *Facsimile and Text of the Book of Taliesin* (Llanbedrog: Gwenogvryn Evans, 1910), wrth drawsysgrifio.

Amser	Testun
<p>1 <b>Presennol 3a / Dyfodol 4a?</b> (Adeg y darogan a chyfeiriad at frysio'r Cymry yn erbyn y Saeson(?))</p> <p>2–3 <b>Dyfodol 6</b> (Cymry'n llewyrchus wedi gyrru'r Saeson o'r wlad)</p> <p>4 <b>Dyfodol 4b–6</b> (Noda <i>gŵedy</i> y symudiad o ymladd (yn y dyfodol) i'r dyfodol gogoneddus wedi hynny a ddisgrifir yn 2–3)</p> <p>5–6 <b>Dyfodol 4b</b> (Ymladd yn erbyn y Saeson)</p> <p>7 <b>Dyfodol 4c</b> (Gyrru'r Saeson ar ffo)</p> <p>8 <b>Dyfodol 6–4c</b> (cymh. ll. 4) (Gorfoledd ar ôl lladd y Saeson)</p> <p>9–11 <b>Dyfodol 4a</b> (Cynghreirio rhwng y Cymry ac eraill yn y dyfodol)</p> <p>12 <b>Dyfodol 6–4c</b> (Tyf y Cymry yn ôl, pan enilliant)</p> <p>13 <b>Presennol 3c–Dyfodol 4a</b> (Bydd dyfodiad y Cymry a'r cynghreiriaid yn cael / boed iddo gael ei ddarogan yn eang)</p> <p>14–16 <b>Dyfodol 4a/b</b> (Cynghreirio ac ymladd â'r Saeson)</p> <p>17–18 <b>Presennol 3a–Dyfodol 4b</b> (Darogan Myrddin y bydd cyfarfod (i ymladd). (Gall adeg y darogan fod yr ennyd yma yn y broffwydoliaeth hon, neu yn y cyfnod presennol yn fwy cyffredinol: 'fel y gwyddys, mae Myrddin yn darogan ...' (3d?)))</p> <p>19 <b>Dyfodol 4c</b> (Bydd Saeson yn cael eu lladd ond ddim yn yr un ffordd; nid yw <i>bei</i> yn effeithio ar y cyfnod y gosodir yn y llinell hon ynddo)</p> <p>20 <b>Dyfodol 4b</b> (Cymry yn ymladd yn erbyn y Saeson)</p> <p>21–2 <b>Dyfodol 4b / Presennol 3b / Gorffennol 2b</b> (Bydd stiwardiaid yn casglu eu 'trethi' (yn eironig am</p>	<p><b>Arymes Prydein Va6r</b><sup>1</sup></p> <p>Dygogan<sup>2</sup> (3 un. <b>pres./dyf.</b>) awen dygobryssyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)<sup>3</sup></p> <p>maraned a meued a hed genhyn.</p> <p>A phennaeth ehelaeth a ffraeth vnbyn.</p> <p>A <b>gŵedy</b> dyhed anhed ym pop mehyn.</p> <p>5 Gŵyr gŵychyr yn trydar kasnar degyn.</p> <p>escut yg gofut ryhyt diffyn.</p> <p>Gŵaethyl gwyr hyt gaer weir gŵasgaraŵt (3 un. <b>pres./dyf.</b>) allmyn.</p> <p>gŵnahaŵnt (3 ll. <b>dyf.</b>) goruoled <b>gŵedy</b> gŵehyn.</p> <p>A chymot kymry a gŵyr dulyn.</p> <p>10 Gŵydyl Iwerdon mon a phrydyn.</p> <p>cornyŵ a chluŵys eu kynnyŵs genhyn.</p> <p>Atporyon uyd (3 un. <b>pres./dyf.</b>) brython <b>pan</b> dyorfyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Pell dygoganher<sup>4</sup> (amhrs. <b>pres. dib.</b>) amser dybydyn. (3 ll. <b>dyf.</b>)</p> <p>Teyrned a bonhed eu gorescyn.</p> <p>15 gŵyr gogled yg kynted yn eu kylch&lt;&gt;yn.<sup>5</sup></p> <p>ymperued eu racwed y discynnyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Dysgogan<sup>6</sup> (3 un. <b>pres./dyf.</b>) myrdin kyueruydhyn.<sup>7</sup> (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>yn aber perydon meiryon mechteyrn.</p> <p>A chyny bei (3 un. <b>amhff. dib.</b>) vn reith lleith a gŵynyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>20 o vn ewyllis bryt yd ymwrthuynnyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p>

<sup>1</sup> Rhuddellir y teitl.

<sup>2</sup> Mae'r *D* yn briflythyren goch ddwy linell o hyd.

<sup>3</sup> Dadleuir yn *ArmP*<sup>2</sup> 17 fod y berfau *-yn* yn ddyfodol hyd l. 22.

<sup>4</sup> Ni welir bod angen diwygio > *dygoganhet* (amhrs. amhff. dib.); gw. uchod t. 0000.

<sup>5</sup> Llsgr. *kylchchyn*: fe'i diwygir yn dawel yn *ArmP*, *ArmP*<sup>2</sup> ac *ArmPF*.

<sup>6</sup> Mae'r *D* yn briflythyren goch.

<sup>7</sup> Llsgr. *kyferueyd hyn*: Yn *ArmP* 18 awgrymir diwygio *kyueruyd hyn* > *kyueruydhyn*; ac yn *ArmPF* 170 > *kyueruydyn*.

<p>frwydr?), ac ni fyddai neb o'r Cymry (yn y sefyllfa hon) yn talu. Cysylltiad hefyd gyda threthi'r gorffennol a'r presennol)</p> <p>23 <b>Preseennol 3d</b> (Cyfeirio at yr hyn a ddywaid rhywun anrhydeddus (neu <b>3a</b> os cyfeirir at ddatgan y gerdd ei hun yn benodol)</p> <p>24 <b>Gorffennol 2a?</b> (O bosibl yn ddyfyniad gan y gŵr dyledog)</p> <p>25–6 <b>Gorffennol 2b</b> (Cwestiynir pam na fu gwrthryfel)</p> <p>27 <b>Dyfodol 5c / Gorffennol 1b</b> (Dymuniad y bardd i gael gwared ar y Saeson yn y dyfodol. Cysylltir nhw â'u hynafiaid yng nghyfnod Gwrtheyrn)</p> <p>28 <b>Dyfodol 4c</b> (Gyr mab Mair (?) y Saeson i alltudiaeth)</p> <p>29 <b>Dyfodol 5c–preseennol 3d / Dyfodol 6</b> (Dymuniad i gael gwared ar y Saeson: noda <i>dioes</i> nad oes gan y Saeson wlad (gyfreithlon) ond hefyd o bosibl na fydd ganddynt wlad)</p> <p>30 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson yn ffoi'n ddiamcan)</p> <p>31–3 <b>Gorffennol 1b</b> (Saeson yn cymryd Thanet)</p> <p>34 <b>Gorffennol 1b–2b / Preseennol 3b</b> (Saeson yn lladd y Cymry ac wedyn yn cael goruchafiaeth (yn y gorffennol ond mae'r sefyllfa yn parhau hyd y preseennol))</p> <p>35–7 <b>Preseennol 3d</b> (Gwirebau gyda chysylltiadau â'r ymladd)</p> <p>38 <b>Dyfodol 5b</b> (Gwireb a gysylltir â dymuniad am gael gwared ar y Saeson)</p> <p>39 <b>Preseennol 3d</b> (Gwireb a gysylltir â sefyllfa druenus y Cymry)</p> <p>40 <b>Preseennol 3b / Gorffennol 1b</b> (Y preseennol gyda'r Saeson yn teyrnasu (a</p>	<p>meiryon eu tretheu dychynnullyn.<sup>1</sup> (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>yg ketoed Kymry nat oed (3 un. <b>amhff.</b>) a telhyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>yssyd (3 un. <b>pres.</b>) 6r dilyeda6c a lefeir (3 un. <b>pres.</b>) hyn.</p> <p>ny dyffei (3 un. <b>amhff. dib.</b>) a talei (3 un. <b>amhff. dib.</b>) yg keithiwet.</p> <p>25 Mab meir ma6r a eir pryt na thardet. (amhrs. <b>grff.</b>)<sup>2</sup></p> <p>rac pennaeth saesson ac eu hoffed.</p> <p>Pell bwynt (3 ll. <b>pres. dib.</b>) kychmyn y 6rtheyrn g6yned.<sup>3</sup></p> <p>ef gyrha6t<sup>4</sup> (3 un. <b>dyf.</b>) allmyn y alltuded.</p> <p>nys arhaed6y (3 un. <b>pres. dib.</b>) neb nys dioes (3 un. <b>pres./dyf.(?)</b>) dayar.</p> <p>30 ny wydynt (3 ll. <b>pres./dyf.</b>) py treiglynt (3 ll. <b>pres./dyf.</b>) ym pop aber.</p> <p><b>pan</b> prynassant (3 ll. <b>grff.</b>) danet tr6y fflet called.</p> <p>gan hors a hegys oed (3 un. <b>amhff.</b>) yng eu ryssed.</p> <p>eu kynnyd bu (3 un. <b>grff.</b>) y 6rthym yn anuonhed.</p> <p><b>g6edy</b> rin dilein keith y mynuer.</p> <p>35 dechymyd (3 un. <b>pres.</b>) medda6[t] ma6r wira6t o ved.</p> <p>dechymyd (3 un. <b>pres.</b>) aghen agheu llawer.</p> <p>decymyd<sup>5</sup> (3 un. <b>pres.</b>) anaelau dagreu g6raged</p> <p>dychyfroy (3 un. <b>pres. dib.</b>) etgyllaeth pennaeth lletfer.</p> <p>dechymyd (3 un. <b>pres.</b>) tristit byt a reher.<sup>6</sup> ( amhrs. <b>pres. dib.</b>)</p> <p>40 <b>Pan</b> uyd (3 un. <b>pres./dyf.</b>)<sup>7</sup> kechmyn danet an teyrned.</p> <p>G6rthottit (3 un. <b>grch.</b>) trinda6t dyrna6t a b6yller. ( amhrs. <b>pres. dib.</b>)</p>
---	---

<sup>1</sup> Ymhellach ar lau. 17–24, gw. uchod t. 0000.

<sup>2</sup> Yn *ArmP* xliiii, *ArmP*<sup>2</sup> 28, ac *ArmPF* 170 awgrymir diwygio *thardet* > *tharder* (a fyddai'n ddyfodol 4b). Creai hyn odl enerig â'r llinellau dilynol ond torrai'r odl â'r llinell flaenorol.

<sup>3</sup> Yn *ArmPF* 170 awgrymir diwygio *i 6rtheyrn* > *G6rtheyrn*.

<sup>4</sup> Yn *ArmP* 22 awgrymir diwygio *gyrha6t* > *gyrha6r* (a fyddai'n ddyfodol 4c o hyd), ond dadleua Isaac, *ArmPF* 171, dros gadw'r darlleniad gyda *Mab Meir*.

<sup>5</sup> Fe'i diwygir yn *ArmP* 2 > *dec[h]ymyd*; nis diwygir yn *ArmPF* 172. Cytunir nad oes angen diwygio, gan y gallai'r sillafiad adlewyrchu orgraff Hen Gymraeg: cymh. *ArmP* 25.

<sup>6</sup> Llsg. *ryher*: yn *ArmP* 28 awgrymir ei ddiwygio > *reher*, sef yr hyn a wneir yn *ArmPF* 172.

<sup>7</sup> Gall *uyd* fod yn ffurf ddyfodol neu bresennol arferiadol, neu, am ei fod yn dilyn *pan*, yn bresennol hanesyddol (ond nid yw'r olaf yn ymddangos yn bosibl yma).

<p>gysylltir â'r gorffennol trwy'r cyfeiriad at Thanet))</p> <p>41–2 <b>Dyfodol 5b / Presennol 3b</b> (Dymuniad i'r Drindod wrthod dyrnod y Saeson (sy'n bwriadu dileu gwlad y Brythoniaid (ymhellach?)))</p> <p>43–4 <b>Dyfodol 5c</b> (Dymuniad i'r Saeson adael y wlad yn hytrach na'r Cymry)</p> <p>45–6 <b>Gorffennol 2b / Presennol 3b</b> (Amwys a yw'n cyfeirio at ddiffyg gweithredu'r Cymry yn y gorffennol ai yn y presennol, ond yr un grym sydd i'r llinellau)</p> <p>47 <b>Dyfodol 4c</b> (Bydd y Cymry'n cwyno am eu sefyllfa?)</p> <p>48 <b>Presennol 3b</b> (Disgrifiad o'r Cymry)</p> <p>49–51 <b>Dyfodol 4a</b> (Yn y dyfodol, ni fyddai'r Cymry yn dweud hyn, ni fyddent yn cymodi a byddent yn gorchymyn eu hunain i Dduw a Dewi, neu gellid trin <i>oed</i> a'r berfau eraill yn orffennol (<b>2a</b>)).</p> <p>52 <b>Dyfodol 5b</b> (Dymuniad i Dduw/Dewi ladd y Saeson)</p> <p>53 <b>Dyfodol 5b?</b> (Gadael i'r Saeson wneud fel y mynnent? (gan y bydd y Cymry'n codi cyn bo hir?))</p> <p>54–61 <b>Dyfodol 4b</b> (Ymladd â'r Saeson (60 yn symud tua <b>Dyfodol 4c</b>))</p> <p>62 <b>Dyfodol 4b?</b> (Byddai'r Saeson mewn cyfyngder mawr yn y fath amgylchiadau)</p> <p>63–6 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson yn cael eu lladd ac yn ffoi)</p>	<p>y dilein gólat vrython a saesson yn anhed.</p> <p>poet (3 un. <b>grch.</b>) <b>kynt</b> eu reges yn alltued.</p> <p><b>no</b> mynet kymry yn diffroed.</p> <p>45 Mab<sup>1</sup> mair maór a eir pryt nas terdyn. (3 ll. <b>amhff.</b> neu <b>bres./dyf.</b>)<sup>2</sup></p> <p>kymry <b>rac</b> goeir breyr ac vnbyn.</p> <p>kyneircheit kyneilweit vn reith cóynnyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)<sup>3</sup></p> <p>vn gor vn gyghor vn eissor ynt. (3 ll. <b>pres.</b>)</p> <p>nyt oed (3 un. <b>amhff.</b>) yr maóred nas lleferynt. (3 ll. <b>pres./dyf.</b> (?))</p> <p>50 namyn <b>yr</b> hebcor goeir nas kymodynt. (3 ll. <b>pres./dyf.</b> (?))</p> <p>y dduó a dewi yd ymorchymynynt. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>talet (3 un. <b>grch.</b>) góρθodet (3 ll. <b>grch.</b>) flet y allmyn.</p> <p>gónaent óy (3 ll. <b>grch.</b>)<sup>4</sup> aneireu eisseu trefdyn.</p> <p>kymry a saesson kyferuydyn (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)<sup>5</sup></p> <p>55 y am lan ymtreulaó ac ymóρθryn<sup>6</sup></p> <p>o diruaóv vydinaóv pan ymprofyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Ac am allt lafnaóv a gaóv a gryn.</p> <p>Ac am góy geir kyfyргеir y am peurllyn.</p> <p>A lluman adaóv a garóv discyn.</p> <p>60 A mal<sup>7</sup> balaon saesson syrthyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>kymry kynyrcheit kyfun dullyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>blaen órth von granwynyon kyfyng oedyn. (3 ll. <b>amhff.</b>)</p> <p>meiryon <b>yg werth</b> eu geu yn eu<sup>8</sup> creinhyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p>
---	--

<sup>1</sup> Mae'r *M* yn briflythyren goch.

<sup>2</sup> Ar lau. 45–50, gw. uchod t. 0000.

<sup>3</sup> Mae *ynt* yn y llinell ganlynol awgrymu lleoli ll. 47 yn y dyfodol.

<sup>4</sup> Cyfieitha Bromwich, *ArmP*<sup>2</sup> 5, ac Isaac, *ArmPF* 173, hyn fel petai'n ffurf 3 ll. pres. (ac felly **presennol 3b**), gan ddilyn awgrym Williams, *ArmP* 31, i ddiwygio > *gwnaant* (er na ddiwygir y testun yno).

<sup>5</sup> Ymhellach ar lau. 54–64, gw. tt. 0000 uchod.

<sup>6</sup> Dilynir *ymóρθryn* gan *punctus elevatus*, sef marc tebyg i hanner colon a'i ben i waered.

<sup>7</sup> Awgrymodd Williams, *ArmP* 35, ychwanegu *bwyt* ac fe'i dilynwyd gan Isaac, *ArmPF* 172.

<sup>8</sup> Llsgr. *yn eu*. Nid oes diwygiad hawdd. Cynigir *yn creu* neu *yn eu creu* yn *ArmP* 35; a *yng kreu* yn *ArmPF* 172.

<p>67 <b>Dyfodol 6</b> (heddwch wedi'r Saeson)  68 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson yn ffoi)  69–71 <b>Dyfodol 4c</b> (69 <b>Gorffennol 2b, Presennol 3b</b>) (Saeson yn ffoi. Cyfeiria <i>ny mat doethant</i> (71) at yr hyn na fydd y meirion yn ei wadu ('ni fyddant yn gwadu na ddaethant yn dda'): nid yw'r amser a ddisgrifir yn newid. Mae'r cyfeiriad at <i>meiryon kaer geri</i> a gasglai drethi yn cysylltu â'r gorffennol a'r presennol)  72 <b>Dyfodol 4c / Gorffennol 2b / Presennol 3b</b> (Saeson yn cael eu lladd, cyfeiriad at y trethi yn adleisio'r presennol a'r gorffennol)  73–4 <b>Dyfodol 4b–c</b> (Saeson yn ymladd(?) neu'n cael eu lladd, ychydig yn ffoi)  75–6 <b>Dyfodol 4d</b> (Gweithredoedd y Saeson wedi ffoi)  77–8 <b>Dyfodol 4b</b> (Ymladd â'r Saeson)  79 <b>Dyfodol 4c</b> (Lladd y Saeson)</p> <p>80 <b>Dyfodol 4d</b> (Ni fydd modd iacháu'r Saeson wedi'r brwydro)  81 <b>Dyfodol 4a</b> (Byddinoedd Cadwaladr yn dod)  82 <b>Dyfodol 5a / 4b</b> (Dymuniad/datganiad am i'r Cymry godi ac ymladd)  83 <b>Presennol 3b / Gorffennol 2b</b> (Amser perffaith yn cyfeirio at weithredoedd presennol a gorffennol y Saeson)  84 <b>Dyfodol 4c</b> (Lladd y Saeson)  85 <b>Presennol 3b / Gorffennol 2b</b> (Ansicr. Ai amser perffaith yn cyfeirio at weithredoedd y Saeson yn y gorffennol a'r presennol?)  86 <b>Dyfodol 6</b> (Ni chaiff y Saeson eu trethi yn ôl byth)  87–9 <b>Dyfodol 4a–b</b> (Arwain Cynan y Cymry a brwydro)  90 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson yn galaru)  91–2 <b>Dyfodol 4b</b> (Cadwaladr yn ymladd yn erbyn y Saeson)</p>	<p>Eu bydin ygŵaetlin yn eu kylchyn.</p> <p>65 Ereill ar eu traeth trŵy goet kilhyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Trŵy uŵrch y dinas ffoxas ffohyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>ryfel heb dychwel y tir prydyn.</p> <p>Attor <b>trwy</b> laŵ gyghor mal mor llithryn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>meiryon kaer geri difri cŵynant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>70 rei y dyffryn a bryn nys dirwadant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>y aber perydon ny mat doethant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p>anaeleu <del>eu</del> tretheu dychynullant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>naŵ ugein canhŵr y discynnant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>maŵr watwar namyn petwar nyt atcorant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>75 dyhed y eu gŵraged a dywedant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>eu crysseu yn llaŵn creu a orolchant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>kymry kyneircheit eneit dichwant.</p> <p>gŵyr deheu eu tretheu a amygant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>llym llifeit llafnaŵr llŵyr y lladant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>80 ny byd (3 un. <b>pres./dyf.</b>) y vedyc mŵyn or a wnaant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>bydinoed katwaladyr kadyr y deuant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>rydrychafŵynt (3 ll. <b>dib. pres.</b>) kymry kat a wnant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>lleith anoleith rydygyrchassant. (3 ll. <b>prff.</b>)</p> <p><b>yg gorffen</b> eu tretheu agheu a ŵdant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>85 ereill arosceill ryplanhassant. (3 ll. <b>prff.</b>)</p> <p><b>oes oesseu</b> eu tretheu nys escorant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>yg koet ymaes<sup>1</sup> ym bryn.</p> <p>canhwyll yn tywyll a gerd (3 un. <b>pres./dyf.</b>) genhyn.</p> <p>kynan yn racwan ym pop discyn.</p> <p>90 Saesson rac brython gŵae a genyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>katwaladyr yn baladyr gan y unbyn.</p>
--	--

<sup>1</sup> Ychwanegir ym *bro* yn *ArmP* 3 ac *ArmPF* 174.

<p>93–4 <b>Dyfodol 4c</b> (Pobl yn marw)</p> <p>95 <b>Dyfodol 4d–6</b> (Ar ôl ymladd, bydd llawer o anrheithio (gan y Cymry gorfoleddus?))</p> <p>96 <b>Dyfodol 4c</b> Saeson yn ffoi</p> <p>97–8 <b>Dyfodol 6 / Dyfodol 4b / Presennol 3b / Gorffennol 2b</b> (Datganiad gan Gymry gorfoleddus y dyfodol (6) fod y Drindod wedi eu gwaredu (4b) o'r trallod cyn eu hamser nhw (2b / 3b / 4b) sy'n cyfuno'r presennol a'r gorffennol ac ymladd y dyfodol)</p> <p>99–101 <b>Dyfodol 5a</b> (Dymuniad i deyrnasoedd De Cymru sefyll yn gadarn)</p> <p>102–4 <b>Dyfodol 5b / Dyfodol 4b / Presennol 3b</b> (Dymuniad na ddwg y Saeson gyfoeth y Cymry heb gael addaliad (5b) am bopeth y maent / y byddant yn ei wneud (4b / 3b))</p> <p>105–6 <b>Dyfodol 4b</b> (Saeson yn cael eu gyrru ar ffo trwy eiriol y seintiau)</p> <p>107–9 <b>Dyfodol 4a / Presennol 3a</b> (Saeson yn cynghreirio. Proffwyda'r awen yn y presennol)</p> <p>110 <b>Dyfodol 4b</b> (Bwriad y Saeson i ymladd â'r Cymry)</p> <p>111–12 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson yn ffoi)</p> <p>113–14 <b>Dyfodol 5b / Gorffennol 2b / Presennol 3b</b> (Dymuniad i'r Cymry ymladd yn erbyn y Saeson am yr hyn a wnaethpwyd yn erbyn eu carennydd (neu, os dyfodol, nodi y byddant yn gwneud hynny (4b)))</p> <p>115 <b>Dyfodol 4b</b> (Ymladd)</p>	<p>tr6y synh6yr yn ll6yr yn eu dichlyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p><b>Pan</b> syrth6ynt (3 ll. <b>pres. dib.</b>) eu clas dros eu herchwyn.</p> <p>yg custud a chreu rud ar rud allmyn.</p> <p>95 <b>yg gorffen</b> pop agreith anreith degyn.</p> <p>Seis ar hynt hyt gaerwynt <b>kynt p6y kynt</b> techyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>g6yn eu byt 6y gymry <b>pan</b> adrodynt. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>ryng6ara6t (3 un. <b>prff.</b>) y trinda6t or tralla6t <b>gynt</b>.</p> <p>na chrynet (3 un. <b>grch.</b>) dyfet na gly6yssyg</p> <p>100 nys g6naho (3 un. <b>pres. dib.</b>) mola6t meiryon mechteyrn.</p> <p>na chynhoryon saesson keffyn ebryn.</p> <p>nys g6naho<sup>1</sup> (3 un. <b>dib. pres.</b>) medut medda6t genhyn.</p> <p>heb talet o dynget meint a geffyn. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>O ymdifeit veibon ac ereill ryn.</p> <p>105 <b>tr6y</b> eirya6l dewi a seint prydyn.<sup>2</sup></p> <p>hyt ffr6t arlego ffoha6r (<b>pres./dyf. amhrs.</b>) allmyn.<sup>3</sup></p> <p>Dysgogan<sup>4</sup> (3 un. <b>pres./dyf.</b>) awen dyda6 (3 un. <b>pres./dyf.</b>) y dyd.</p> <p><b>pan</b> dyffo (3 un. <b>dib. pres.</b>) iwys y vn g6ssyl.</p> <p>vn cor vn gyghor a lloegyr lloscit.</p> <p>110 <b>yr gobeith</b> anneira6 ar yn pryda6 luyd.</p> <p>A cherd ar alluro a ffo <b>beunyd</b>.</p> <p>ny 6yr (3 un. <b>pres./dyf.</b>) kud ymda (3 un. <b>pres./dyf.</b>) c6d a (3 un. <b>pres./dyf.</b>) c6d vyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Dychyrch6ynt (3 un. <b>pres. dib.</b>) gyfarth mal arth o vynyd.</p> <p><b>y</b> talu g6ynyeith g6aet eu hennyd.</p> <p>115 Atvi (3 un. <b>dyf.</b>) peleitral dyfal dillyd.</p>
--	--

<sup>1</sup> Mae *g6naho* yn aneglur yn y llawysgrif (yn enwedig y ddwy lythyren olaf), ond dyma ddarlleniad pawb.

<sup>2</sup> Llsgr. *prydeyn*: awgryma Williams, *ArmP* 44, mai camgymeriad ydyw am *prydyn* (a rydd odl); fe'i diwygir yn *prydyn* yn *ArmPF* 174. Mae'n debyg mai Ynys Prydain a olygir. Am y dryswch rhwng *Prydein* a *Prydyn*, gw. *ArmP* 14; Dauvit Broun, *Scottish Independence and the Idea of Britain: From the Picts to Alexander III* (Edinburgh, 2007), 81–3.

<sup>3</sup> Llsgr. *allan*: fe'i diwygir yn *allmyn* yn *ArmP* 45 ac *ArmPF* 174.

<sup>4</sup> Mae'r *D* yn briflythyren goch.

<p>116 <b>Dyfodol 4b</b> (Ni fydd hyd yn oed aelodau o'r un teulu yn arbed ei gilydd)</p>	<p>nyt arbett6y (3 un. <b>dib. pres.</b>) car corff y gilyd.</p>
<p>117–18 <b>Dyfodol 4b</b> (Ymladd) 119–20 <b>Dyfodol 4b–Dyfodol 4c</b> (Ymladd (yn brifo dwylo) cyn i'r lluoedd fynd) 121–4 <b>Dyfodol 4b / 4c</b> (Ymladd a phobl yn marw. Cyfeiriad at y dreth yn cysylltu â'r gorffennol <b>1b, 2b</b>)</p>	<p>Atui (3 un. <b>dyf.</b>) pen gafla6 heb emennyd.</p> <p>Atui (3 un. <b>dyf.</b>) g6raged g6ed6 a meirch g6eilyd.</p> <p>Atui (3 un. <b>dyf.</b>) obein vthyr <b>rac</b> ruthyr ketwyr.</p> <p>120 A llia6s lla6 amhar <b>kyn</b> g6ascar lluyd.</p> <p>kennadeu agheu dychyferwyd (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p>
<p>125–7 <b>Gorffennol 2a</b> (Cymry'n brwydro'n wrol yn y gorffennol) 128–31 <b>Dyfodol 4a</b> (Y Cymry yn cynghreirio â phobloedd Iwerddon)</p>	<p><b>pan</b> safhwynt (3 un. <b>pres. dib.</b>) galaned 6rth eu hennyd.</p> <p>Ef diala6r (<b>pres./dyf.</b> amhrs.) y treth ar g6erth <b>beunyd</b></p> <p>Ar mynych gennadeu ar geu luyd.</p> <p>125 Dygorfu<sup>1</sup> (3 un. <b>grff.</b>) kymry <del>y peri</del> <b>tr6y</b> kyfergyr. yn gyweir gyteir gytsion gyttffyd.</p> <p>Dygorfu (3 un. <b>grff.</b>) kymry <b>y</b> peri kat.</p>
<p>132 <b>Dyfodol 4a</b> (Gynnon Dulyn yn dod i'r frwydr) 133–6 <b>Dyfodol 4a / Gorffennol 1a</b> (Araith anuniongyrchol (aneglur ai Gynnon Dulyn yn benodol neu'r Cymry a'r cynghreiriaid yw goddrych <i>gofynnant</i>) yn gofyn cwestiynau sy'n cyfeirio'n ôl yn ddirmygus at hanes y Saeson) 137 <b>Gorffennol 1b / Gorffennol 2b / Presennol 3b</b> (Nodi'r holl amseroedd y mae'r Saeson wedi bod yn orthrwm gan gynnwys amser Gwrtheyrn) 138 <b>Presennol 3b / Dyfodol 4c</b> (Ni all Saeson ennill tir y Cymry yn gyfreithlon) 139–40 <b>Gorffennol 2b</b> (Disgrifiad o orthrwm y Saeson ar ffurf cwestiynau anuniongyrchol) 141 <b>Dyfodol 5b</b> (Dymuniad i'r Cymry ymgadw rhag y Saeson pan ymwelant)</p>	<p>a ll6yth llia6s g6lat a gynnullant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>A lluman glan dewi a drychafant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>130 <b>y</b> tywyssa6 g6ydyl tr6y lieingant.</p> <p>A gynhon dulyn genhyn y safant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p><b>pan</b> dyffont (3 ll. <b>pres. dib.</b>) yr gad nyt ymwadant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>gofynnant (3 ll. <b>pres./dyf.</b>) yr Saesson py geissyssant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p>p6y meint eu dilyet or wlat a dalyant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>135 c6 mae (3 un. <b>pres.</b>) eu her6 pan seilyassant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p>c6 mae (3 un. <b>pres.</b>) eu kenedloed py vro pan doethant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p><b>yr amser g6rtheyrn</b> genhyn y sathrant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)<sup>2</sup></p> <p>ny cheffir (amhrs. <b>pres./dyf.</b>) o wir rantir an karant.</p> <p>Neu vreint an seint pyr y saghyssant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p>140 neu reitheu dewi pyr y torrassant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p>ymgetwynt (3 ll. <b>pres. dib.</b>) gymry <b>pan</b> ymwelant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>nyt ahont (3 ll. <b>pres. dib.</b>) allmyn or nen y safant. (3 ll. <b>pres./dyf.</b>)</p>

<sup>1</sup> Mae'r *D* yn briflythyren goch. Yn *ArmP*<sup>2</sup> awgrymir diwygio *Dygorfu* > *Dygorfi* neu'n *Dygoryw* yn llau 125 a 127 (gw. t. 0000 uchod), ond cytunir ag *ArmPF* 176.

<sup>2</sup> Yn y cyd-destun hwn, cyfeiria *sathrant* at y cyfnod rhwng amser Gwrtheyrn a'r presennol.



<p>142–4 <b>Dyfodol 5b / Gorffennol 2b / Presennol 3b</b> (Dymuniad na fydd y Saeson yn gadael heb dalu (<b>5b</b>) am eu troseddau (<b>2b / 3b</b>))</p> <p>145–6 <b>Dyfodol 4b / Gorffennol 1b</b> (Cosbir y Saeson am yr hyn a wnaethant, o bosibl yn oes Gwrtheyrn)</p> <p>147–8 <b>Dyfodol 4a / 4c</b> (Daw pobl o Iwerddon i gael gwared ar y Saeson)</p> <p>149–50 <b>Dyfodol 4a / 4c</b> (Daw pobl o ‘Lego’ i gael gwared ar y Saeson)</p> <p>151–2 <b>Dyfodol 4a / 4c</b> (Daw pobl o Ystrad Clud i gael gwared ar y Saeson)</p> <p>153–4 <b>Dyfodol 4a / 4b</b> (Daw pobl o Lydaw)</p> <p>155 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson mewn sefyllfa wael)</p> <p>156 <b>Presennol 3b / Dyfodol 4c</b> (Nodi bod oes y Saeson drosodd ac nad oes ganddynt dir (am nad oes ganddynt dir cyfreithlon ym Mhrydain nac yn unrhyw le arall.) Gan mai eu halltudio yw’r nod, pletha’r presennol a’r dyfodol)</p> <p>157–8 <b>Dyfodol 4b</b> (Ymladd yn erbyn y Saeson)</p> <p>159–62 <b>Presennol 3b / Gorffennol 2b / Dyfodol 5c</b> (Disgrifiad o sefyllfa gyfoethog y Saeson a dymuniad iddynt fod mewn sefyllfa druenus wedyn)</p> <p>163–70 <b>Dyfodol 4b / 6</b> (Nid yw’r union leoliad amseryddol yn glir (yn fwriadol): canolbwyntir ar foliant Cynan a Chadwaladr yn y dyfodol)</p>	<p><b>hyt pan</b> talhont (3 ll. <b>dib. pres.</b>) seith weith góerth digonsant. (3 ll. <b>grff.</b>)</p> <p>Ac agheu diheu <b>yg werth</b> eu cam.</p> <p>145 ef talhaó (amhrs. <b>dyf.</b>) o anaó (garmaón) garant.</p> <p><b>y pedeir blyned ar petwar cant.</b><sup>1</sup></p> <p>Góyr góychyr góallt hiryon ergyr dofyd.</p> <p><b>y</b><sup>2</sup> dihol<sup>3</sup> saesson o iwerdon dybyd. (3 un. <b>dyf.</b>)</p> <p>Dybi (3 un. <b>dyf.</b>) o lego lyghes rewyd.</p> <p>150 rewinyaó (3 un. <b>dyf.</b>) y gat róyccaó (3 un. <b>dyf.</b>) lluyd.</p> <p>Dybi (3 un. <b>dyf.</b>) o alclut góyr drut diweir</p> <p><b>y</b> dihol o prydein virein luyd.</p> <p>Dybi (3 un. <b>dyf.</b>) o lydaó prydaó gyweithyd.</p> <p>ketwyr y ar katueirch ny pheirch (3 un. <b>pres./dyf.</b>) eu hennyd.</p> <p>155 Saesson o pop parth y góarth ae deubyd. (3 un. <b>dyf.</b>)</p> <p>rytreghis (3 un. <b>prff.</b>) eu hoes nys dioes (3 un. <b>pres./dyf.(?)</b>) eluyd.</p> <p>dyderpi (3 un. <b>dyf.</b>) agheu yr du gyweithyd.</p> <p>clefyt a dyllid ac angóeryt.</p> <p><b>Góedy</b> eur ac aryant a chanhóynyd.</p> <p>160 boet (3 un. <b>grch.</b>) perth eu disserth yg werth eu drycffydyd.</p> <p>boet (3 un. <b>grch.</b>) mor boet (3 un. <b>grch.</b>) agor eu <del>kussywy</del> kussulwyr</p> <p>boet (3 un. <b>grch.</b>) creu boet (3 un. <b>grch.</b>) agheu eu kyweithyd.</p> <p>kynan a chatwaladyr kadyr yn lluyd.</p> <p>Etmyccaó ( amhrs. <b>pres./dyf.</b>) <b>hyt óraó</b> ffaó ae deubyd. (3 un. <b>dyf.</b>)</p> <p>165 Deu vnben degyn dóys eu kussyl.</p> <p>deu orsegyn saesson o pleit dofyd.</p> <p>deu hael deu gedaól gólat warthegydyd.</p> <p>deu diarchar baraó vnffaó vnffyd.</p>
---	--

<sup>1</sup> Am ddeongliadau o *y pedeir blyned ar petwar cant*, gw. *ArmP* 55–6; cymh. Andrew Breeze, ‘*Armes Prydein*, Hywel Dda, and the Reign of Edmund of Wessex’, *Etudes celtiques*, 33 (1997), 209–22.

<sup>2</sup> Llsg. *o*: fe’i diwygir yn y yn *ArmP* 56 ac *ArmPF* 178.

<sup>3</sup> Aneglur yn y llawysgrif.

<p>171–6 <b>Presennol 3a–Dyfodol 6</b> (Darogan derwyddon (yn awr) sefyllfa'r Cymry wedi iddynt ennill) 177 <b>Dyfodol 5d</b> (Dymuniad i'r Gwyddelod ddychwelyd wedi'r frwydr (neu, os dyfodol, datganiad y bydd hyn yn digwydd (<b>4d</b>))) 178–80 <b>Dyfodol 5a / Gorffennol 2a</b> (Dymuniad i'r Cymry godi lluoedd (neu, os dyfodol, datganiad y bydd hyn yn digwydd (<b>4a</b>)) gyda brenhinoedd ffyddlon (<b>2a</b>))</p> <p>181 <b>Dyfodol 4c</b> (Saeson yn gadael i fynd ar y môr) 182 <b>Dyfodol 4a</b> (Cynan yn cymodi) 183–4 <b>Dyfodol 6</b> (Saeson dan orthrwm Cadwaladr)</p> <p>185–6 <b>Dyfodol 6–4c</b> (Cymry'n hapus am ddarvoud y Saeson) 187–8 <b>Dyfodol 4d</b> (Gwychder y sefyllfa gyda chyrrff y Saeson o gwmpas) 189–91 <b>Dyfodol 4c–4d</b> (Saeson yn dechrau ffoi ar y môr ac wedyn yn aros yno)</p> <p>192 <b>Dyfodol 6</b> (Cymry yn fuddugol tan ddiwedd y byd) 193–4 <b>Presennol 3a / Dyfodol 5a</b> (Dymuniad i'r Cymry beidio â chwilio am broffwydoliaeth arall (<b>5a</b>) ond canolbwyntio hefyd ar bresennol y broffwydoliaeth (<b>3a</b>))</p>	<p>deu erchwyna6c prydein mirein luyd.</p> <p>170 deu arth nys g6na (3 un. <b>pres./dyf.</b>) g6arth kyfarth <b>beuny</b>d.</p> <p>d<sup>1</sup> ysgogan (3 un. <b>pres./dyf.</b>) derwydon meint a deruyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>o vyna6 hyt lyda6 yn eu lla6 yt vyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>o dyuet hyt danet 6y bieuiyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>o wa6l hyt weryt hyt eu hebyr.</p> <p>175 lle&lt;&gt;ta6t<sup>2</sup> (3 un. <b>dyf.</b>) eu pennaeth tros yr ech6yd.</p> <p>Attor ar gynhon saesson ny byd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Atchwel6ynt (3 ll. <b>dib. pres.</b>) 6ydyd ar eu hennyd.</p> <p>rydrychaf6ynt (3 ll. <b>dib. pres.</b>) gymry kadyr gyweithyd.</p> <p>bydinoed am g6r6f a th6r6f milwyr.</p> <p>180 A theyrned de6s ryged6ys<sup>3</sup> (3 un. <b>prff.</b>) eu ffyd.</p> <p>Iwis y pop llyghes tres a deruyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>A chymot kynan gan y gilyd.</p> <p>ny alwa6r (amhrs. <b>pres./dyf.</b>) gynhon yn gynifwyr namyn kechmyn katwaladyr ae gyfnewitwyr.</p> <p>185 Eil kymro llawen llafar a uyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Am ynys gym6yeit heit a deruyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p><b>pan</b> safh6ynt (3 ll. <b>dib. pres.</b>) galaned 6rth eu hennyd.</p> <p>hyt yn aber santwic s6ynedic vyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Allmyn <b>ar</b> gychwyn y alltudyd.</p> <p>190 ol 6rth ol attor ar eu hennyd saesson 6rth agor ar vor <b>peuny</b>d.</p> <p>kymry g6enera6l <b>hyt vra6t</b> goruyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>Na cheiss6ynt (3 ll. <b>dib. pres.</b>) lyfra6r nac aga6r brydyd.</p> <p>Arymes yr ynys hon namyn hyn ny byd. (3 un. <b>pres./dyf.</b>)</p> <p>195 Iol6n (1 ll. <b>grch.</b>) i ri a gre6ys (3 un. <b>grff.</b>) nef ac eluyd.</p>
--	---

<sup>1</sup> Ni cheir ond llythyren fach yma i nodi y dylid ychwanegu *D* fawr wedi ei rhuddellu.

<sup>2</sup> Llsg. *lletata6t*: diwygir > *lletawt* yn *ArmP* 62, ac > *lleta6t* yn *ArmPF* 178.

<sup>3</sup> Diwygir *ryged6ys* > *rygedwis* yn *ArmPF* 180; cymh. *ArmP* 65.

195–6 <b>Presennol 3a / 4a</b> (Dymuniad ein bod ni (yn awr) yn gofyn i Dduw sicrhau bod Dewi yn arwain y milwyr)	poet (3 un. <b>grch.</b> ) tywyssaŵc dewi yr kynifwyr. yn yr yg gelli kaer am duŵ yssyd. (3 un. <b>pres.</b> )
197–9 <b>Presennol 3d</b> (Presennol bythol Duw (a Dewi?))	ny threinc (3 un. <b>pres./dyf.</b> ) ny dieinc (3 un. <b>pres./dyf.</b> ) nyt ardispyd. (3 un. <b>pres./dyf.</b> ) ny 6y6 (3 un. <b>pres./dyf.</b> ) ny wellyc (3 un. <b>pres./dyf.</b> ) ny phlyc (3 un. <b>pres./dyf.</b> ) ny chryd. (3 un. <b>pres./dyf.</b> )

## *Atodiad 2: Berfau Armes Prydein<sup>1</sup>*

Rhestrir y berfau, ym mhob categori, yn y drefn yr ymddangosant ynddi, a hefyd yn eu ffurfiau treigledig, os ydynt wedi eu treiglo yn y testun. Mae'r ffurfiau'n aml yn amwys. Gall ffurfiau *-yn(t)* fod yn amherffaith neu bresennol mynegol; os ydynt yn bresennol mynegol, gallant gyfeirio at y dyfodol neu'r presennol, fel y rhan fwyaf o'r ffurfiau presennol mynegol eraill. Gall ffurfiau presennol dibynnol fynegi posibilrwydd neu, yn y cyfnod hwn, ddisgrifio'r dyfodol. Mae'n ansicr a yw'r ffurfiau absoliwt *-hawr / -ha6t / -ha6nt* yn ffurfiol ddyfodol neu'n bresennol mynegol gyda'r posibilrwydd o fod yn cyfeirio at y dyfodol.<sup>2</sup>

### *Y modd mynegol*

#### *presennol*

3 un. **mae** 135, 136, **yssyd** 197

3 ll. **ynt** 48

#### *presennol (a all gyfeirio at y dyfodol)*

3 un. **dygogan** 1, **g6asgara6t** 7, **uyd** 12, **dysgogan** 17, **yssyd** 23, **lefeir** 23, **dioes** 29,<sup>3</sup> **dec(h)ymyd** 35, 36, 37, 39, **uyd** 40, **byd** 80, **gerd** 88, **dysgogan** 107, **dyda6** 107, **6yr** 112, **ymda** 112, **a** 112, **vyd** 112, **dychyferwyd** 121, **pheirch** 154, **dioes** 156, **g6na** 170, **dysgogan** 171, **deruyd** 171, 172

<sup>1</sup> Cymh. yr eirfa lawn yn *ArmP<sup>2</sup>* 73–85.

<sup>2</sup> Am drafodaeth, gw. Simon Rodway, *Dating Medieval Welsh Literature: Evidence from the Verbal System* (Aberystwyth: CMCS Publications, 2013), 62–4 ac 85–116; Isaac, *Verb*, 368–71; Graham Isaac, 'The Old- and Early Middle-Welsh "Future" Tense: Form and Function of a Moribund Category', *The Journal of Celtic Studies*, 4 (2004), 143–70.

<sup>3</sup> Mae'n ansicr a all *dioes* gyfeirio at y dyfodol yn ogystal ag at y presennol oherwydd ansicrwydd perthynas y ffurf â *bod*, gw. Lloyd-Jones, *Geirfa*, d.g. *dioed*, *dioes*.

**vyd, bieiuyd 173, byd 176, deruyd 181, uyd 185, deruyd 186, vyd 188, goruyd 192, byd 194, threinc 198, dieinc 198, ardispyd 198, 6y6 199, wellyc 199, phlyc 199, chryd 199**

**3 ll. dygobryssyn 1, dyorfyn 12, discynnyn 16, kyueruydhyn 17,<sup>1</sup> g6ynyn 19, ymwrthuynnyn 20, dychynnullyn 21, telhyn 22, wydynt 30, treiglynt 30, terdyn (*neu amhff.*) 45, c6ynnyn 47, lleferynt 49, kymodynt 50, ymorchymynynt 51, kyferuydyn 54, ymprofyn 56, syrthyn 60, dullyn 61, creinhyn 63, kilhyn 65, ffohyn 66, llithryn 68, c6ynant 69, dirwadant 70, dychynnullant 72, discynnant 73, atcorant 74, dywedant 75, orolchant 76, amygant 78, lladant 79, wnaant 80, deuant 81, wnant 82, 6dant 84, escorant 86, genyn 90, dichlyn 92, techyn 96, adrodynt 97, geffyn 103, gynnullant 128, drychafant 129, safant 131, ymwadant 132, gofynnant 133, dalyant 134, sathrant 137, ymwelant 141, safant 142**

*amhrs.* **ffoha6r 106, diala6r 123, cheffir 138, etmycca6r 164, alwa6r 183**

*dyfodol*

**3 un. gyrha6t 28, atvi/atui 115, 117, 118, 119, dybyd 148, dybi 149, rewinya6t 150, r6ycca6t 150, dybi 151, 153, deubyd 155, dyderpi 157, deubyd 164, lle<>ta6t 175**

**3 ll. g6naha6nt 8, dybydyn 13**

*amhrs.* **talha6r 145**

*amherffaith*

**3 un. oed 22, oed 32, oed 49**

**3 ll. terdyn (*neu bres./dyf.*) 45, oedyn 62**

*gorffennol*

**3 un. bu 33, Dygorfu 125, 127, gre6ys 195**

**3 ll. prynassant 31, doethant 71, geissyssant 133, seilyassant 135, doethant 136, saghyssant 139, torrassant 140, digonsant 143**

*amhrs.* **thardet 25**

*gorffennol gyda geirynd perffeithiol*

**3 ll. rydygyrchassant 83, ryplanhassant 85, Ryng6ara6t 98, rytreghis 156, ryged6ys 180**

*Y modd dibynnol*

*presennol (a all gyfeirio at y dyfodol)*

**3 un. arhaed6y 29, dychyfroy 38, g6naho 100, 102, dyffo 108, arbett6y 116**

---

<sup>1</sup> Llsgr. *kyuerueyd hyn.*

3 ll. **bwynt** (*neu grch.*) 27, **rydrychafŷynt** 82, **syrthŷynt** 93, **dychyrchŷynt** 113, **safhwynt** 122, **dyffont** 132, **ymgetwynt** 141, **ahont** 142, **talhont** 143, **atchwelŷynt** 177, **rydrychafŷynt** 178, **safhŷynt** 187, **cheissŷynt** 193

*amhrs.* **dygoganher** 13, **bŷyller** 41

*amherffaith*

3 un. **bei** 19, **dyffei** 24, **talei** 24

*Y modd gorchmynnol*

1 ll. **iolŷn** 195

3 un. **gŷrthottit** 41, **poet** (gall fod yn ddib. hefyd, cymh. **bwynt**) 43, **talet** 52, **gŷrthodet** 52, **chrynet** 99, **boet** 160, 161 (x2), 162 (x2), **poet** 196

3 ll. **gŷnaent ŷy** (?) 53

## *Byrfoddau*

- ArmP* Ifor Williams (gol.), *Armes Prydein o Lyfr Taliesin* (Caerdydd: GPC, 1955).
- ArmP<sup>2</sup>* Ifor Williams a Rachel Bromwich (goln), *Armes Prydein: The Prophecy of Britain* (Dublin: DIAS, 1972).
- ArmPF* Graham Isaac, ‘ “*Armes Prydain Fawr*” and St David’, yn J. Wyn Evans a Jonathan M. Wooding (goln), *St David of Wales: Cult, Church and Nation* (Woodbridge: Boydell Press, 2007), 161–81.
- GMW* D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin: DIAS, 1964)
- GPC* Andrew Hawke et al. (goln), *Geiriadur Prifysgol Cymru Ar Lein* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2014– ), <http://geiriadur.cymru>.